



**CYFARFOD BWRDD CYHOEDDUS**

15 Gorffennaf 2021

Cyfarfod rhithwir

09:30 – 13:00

| <b>Sesiwn gyhoeddus</b>       |     |   | <b>Tudalen</b> |
|-------------------------------|-----|---|----------------|
| 09:30                         | 1.  | Croeso a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd   | Llafar         |
| 09:35                         | 2.  | Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau  | Llafar         |
| 09:40                         | 3.  | <a href="#">Cofnodion cyfarfod Bwrdd 29 Ebrill 2021</a><br>I'w cymeradwyo   | SCW/21/17 3    |
| 09:45                         | 4.  | <a href="#">Log gweithredu</a> a materion yn codi   | SCW/21/18 26   |
| 09:50                         | 5.  | Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau<br>I'w nodi a derbyn  | Llafar         |
| 10:05                         | 6.  | Gosod cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif<br>Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr<br>I nodi a derbyn   | Llafar         |
| <b>Ar gyfer penderfyniad:</b> |     |   |                |
| 10:20                         | 7.  | <a href="#">Adroddiad Blynyddol Drafft a Chyfrifon 2020-21,</a><br><a href="#">adroddiad archwilio cyfrifon</a><br><a href="#">Atodiad 1</a><br><a href="#">Atodiad 2</a><br>Ystyried a chymeradwyo | SCW/21/19 31   |
| <b>10:50 – 11:00 Egwyl</b>    |     |   |                |
| 11:00                         | 8.  | <a href="#">Adroddiad sicrwydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a</a><br><a href="#">Risg i'r Bwrdd</a><br><a href="#">Atodiad 2</a><br>Ystyried a chymeradwyo  | SCW/21/20 126  |
| 11:10                         | 9.  | <a href="#">Adolygiad cyflog cyfartal 2021</a><br>Ystyried a chymeradwyo  | SCW/21/21 152  |
| 11:20                         | 10. | <a href="#">Cynllun Dirprwyo</a><br>Ystyried a chymeradwyo  | SCW/21/22 166  |

**11:30 – 11:40 Egwyl**

11:40 11. [Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd chwarter 1](#) SCW/21/23 173  
Ystyried a chymeradwyo

12:15 12. Cynllun Strategol amlinellol 2022-2027  
Ystyried a chymeradwyo Cyflwyniad

**I'w drafod:**

12:50 13. Effeithiolrwydd y cyfarfod  
I'w drafod Llafar

**Dyddiad cyfarfod nesaf:**

**Dydd Iau 21 Hydref 2021**



## Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

### CYFARFOD CYHOEDDUS O'R BWRDD

29 Ebrill 2021

Cyfarfod Zoom Rhithwir

09:30 - 13:00

#### Yn bresennol:

#### Aelodau'r Bwrdd:

Mick Giannasi  
Abigail Harris  
Carl Cooper  
Damian Bridgeman  
Donna Hutton  
Emma Britton  
Jane Moore  
Jo Kember  
Kate Hawkins  
Maria Battle  
Peter Max  
Rhian Watcyn Jones  
Simon Burch  
Trystan Pritchard

#### Swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru:

Sue Evans (Prif Swyddog Gweithredol)  
Andrew Lycett (Cyfarwyddwr Cyllid, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol)  
David Pritchard (Cyfarwyddwr Rheoleiddio)  
Sarah McCarty (Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu)  
Geraint Rowlands (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid a TGCh)  
Kate Salter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol)  
Rhianon Jones (Rheolwr Adnoddau Dynol a Lles)  
Llinos Bradbury (Uwch Swyddog Llywodraethu – cofnodion)

#### Yn bresennol:

Aled Jones, Cymen (cyfieithu ar y pryd)  
Natalie Price

#### Sesiwn gyhoeddus:

##### 1. Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd

- i. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dywedodd mai cyfarfod cyhoeddus rhithwir o'r Bwrdd oedd hwn gyda chyfieithu ar y pryd ar gael. Anogodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn gallu cyfrannu yn Gymraeg i wneud hynny.
- ii. Hysbysodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd y byddai'r adran ar fodloni effeithiolrwydd yn cael ei chynnal ychydig yn wahanol, fel yng nghyfarfod mis Ionawr. Ar gyfer y cyfarfod hwn, anogir aelodau i roi eu hadborth mewn Jamboard lle gofynnwyd tri chwestiwn, a bydd y sylwadau'n cael eu casglu ar ddiwedd y cyfarfod.

##### 2. Ymddiheuriadau a datgan buddiannau

- i. Nodwyd ymddiheuriadau gan Grace Quantock.

- ii. Datganodd CC fuddiant fel Cadeirydd y Bartneriaeth Adnoddau a Chymunedau y cyfeirir ati yng Nghynllun Busnes 2021-22 ar yr agenda.

### 3. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 28 Ionawr 2021

- i. Cafodd cofnodion cyfarfodydd 28 Ionawr 2021 eu gwirio am eu cywirdeb a'u **cymeradwyo** gan y Bwrdd.

### 4. Cofnod gweithredu a materion yn codi

- i. Tynnwyd sylw'r aelodau at y log gweithredu parhaus sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu sy'n weddill ers y cyfarfod diwethaf.
- ii. Gofynnodd JM a oedd yr adroddiad gwaddol gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Blant a Phobl Ifanc Agored i Niwed wedi'i gynhyrchu ac ar gael. Cadarnhaodd SMC fod yr adroddiad gwaddol wedi'i gynhyrchu a'i drafod mewn cyfarfod o'r Grŵp Cynghori; mae'r fersiwn derfynol yn cael ei chyfieithu a'i dylunio ar hyn o bryd a bydd yn cael ei rhannu gydag aelodau'r Grŵp Cynghori i'w rhaedru unwaith y bydd yn barod.
- iii. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y camau a gymerwyd mewn perthynas â gwahodd y tîm Cofrestru i gyfarfod o'r Bwrdd i ddiolch iddynt am eu gwaith ond na ddigwyddodd oherwydd COVID-19. Arweiniodd hyn wedyn at raglen strwythuredig o gynyddu gwelededd ac ymgysylltiad y Bwrdd â staff tra'n gweithio o bell. Dros y 6 mis diwethaf mae'r Cadeirydd, gyda chefnogaeth aelodau'r Bwrdd, wedi cyfarfod ag oddeutu 80% o'r sefydliad drwy eu cyfarfodydd adrannol. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i gael sgwrs ddwy ffordd i 'brofi tymheredd' y sefydliad. Mae'n amlwg o'r sgysiau y gall y Bwrdd fod yn dawel eu meddwl bod gan y sefydliad weithlu ymroddedig ac ymroddgar, gyda lefelau morâl ac ymgysylltiad uchel. Mae'r staff wedi gwerthfawrogi'r gefnogaeth weladwy gan y Tîm Rheoli Gweithredol, sy'n gyson â chanlyniadau'r arolwg staff a gynhaliwyd yn ddiweddar. Paratowyd papur briffio manylach a chaiff ei lanlwytho i'r porth yn ystod y dyddiau nesaf. Dylid ystyried ailadrodd y broses dros y 12 mis nesaf, ond mewn fformat ychydig yn wahanol.
- iv. Gofynnodd SB a oedd trafodaethau'n ymwneud â chamau gweithredu recriwtio a chydarddoldeb Grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn mynd rhagddynt, gan fod hyn wedi bod yn gam gweithredu ers y cyfarfod ym mis Hydref. Ymddiheurodd RJ am yr oedi wrth ddatblygu'r camau hyn a chadarnhaodd fod negeseuon e-bost i drefnu cyfarfod wedi'u hanfon at EB a DB yr wythnos hon i helpu i gefnogi recriwtio i'r sefydliad sy'n digwydd yn fuan.
- v. Gofynnodd y Cadeirydd am i'r camau gweithredu gael cyfeirnod wrth symud ymlaen i helpu i adnabod camau gweithredu yn y dyfodol. **GWEITHREDU**
- vi. Nid oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach ar y log gweithredu.

## 5. Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gadeiryddion Pwyllgorau

- i. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, darparodd RWJ grynodedb o'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth y Pwyllgor ac yn arbennig, nododd: -
  - adroddiad archwilio mewnol cadarnhaol iawn lle darparwyd sicrwydd sylweddol neu gymedrol mewn nifer o feysydd.
  - y gwaith craffu a ddarparwyd mewn perthynas â phroses ail-achredu ISO neu'r System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (ISMS) a fyddai'n cael ei thrafod yn ddiweddarach yn yr agenda.
  - trafodaeth gynhyrchiol mewn perthynas â gweithio o bell a'r ffordd orau o weithredu model gweithio cyfunol yn y dyfodol yn seiliedig ar ddysgu o arferion da.
- ii. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwella, tynnodd PM sylw at ddwy eitem allweddol: -
  - ymchwiliad at wraidd y mater a gynhaliwyd i'r adolygiad interim o'r Strategaeth Ymchwil Gofal Cymdeithasol.
  - cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoleiddio a amlinellodd y cynnig i bersonau cofrestredig a'r agenda rheoleiddio ar gyfer gwella (clywyd yr un cyflwyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau hefyd).
- iii. Roedd y cyflwyniad yn amlygu (i) y cyfle tymor hwy i wella ymarfer o'r gofrestr, (ii) ystyriaethau ar gyfer DPP yn y dyfodol a fydd yn symud i ffwrdd oddi wrth bwyslais ar gyfrif oriau i ddarparu cyfleoedd i bobl fyfyrto ar eu dysgu a (iii) casglu themâu o Addasrwydd i Ymarfer (AiY) i'w rhannu â'r sector.
- iv. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau, soniodd SB am ansawdd y trafodaethau strategol a gweithredol a gynhaliwyd yn ystod y cyfarfod. Yn benodol, tynnodd sylw at y cyflwyniad difyr a gafwyd gan Sarah Harris o Kingsley Napley yn nodi canfyddiadau interim yr adolygiad o'r broses AiY. Amlygodd y cyflwyniad amrywiaeth o gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg i wella effeithlonrwydd, yn enwedig mewn perthynas â throthwyon a rheoli risg. Roedd hefyd wedi dweud bod y staff wedi cymryd rhan lawn yn y broses a bod ymrwymiad gwirioneddol i'r broses ac i'r cysyniad o welliant parhaus. Trafodir yr adroddiad llawn ac ymateb rheolwyr yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin.
- v. Yn dilyn cais gan y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19, cyflwynodd David Pritchard y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o safbwynt rheoleiddiol. Hefyd, rhoddodd SMC y wybodaeth ddiweddaraf am bwysau'r gaeaf o safbwynt y sector, lle mae'r galw'n debygol o barhau ymhell i mewn i'r haf. Myfyriodd hefyd ar y newidiadau cadarnhaol i ymarfer sydd wedi deillio o weithio drwy'r pandemig.
- vi. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fyfyrnodau ar gyfarfodydd y Pwyllgor hefyd ar ôl iddo arsylwi ar y tri. Yn benodol, soniodd am y synergedd cynyddol rhwng y Pwyllgorau a gwerth y rhyngweithio â rhanddeiliaid allanol a oedd yn bresennol. Ychwanegodd SE hefyd fod ymestyn aelodaeth y Pwyllgorau wedi helpu i gryfhau'r trafodaethau yn ogystal ag adlewyrchu aeddfedrwydd y sefydliad, y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Teimlai fod y Pwyllgorau'n gweithio'n dda, gan alluogi'r Bwrdd i ddirprwyo gwaith, lle gellir trafod a chraffu'n ddyfnach.

vii. Nid oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach ynghylch y diweddariadau.

## **6. Gosod y cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr**

- i. Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon wedi'i symud yn nes at ddechrau'r agenda, yn dilyn adborth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr, pan ddywedodd yr aelodau ei bod hi'n gallu bod yn anodd cael cyd-destun eitemau'r agenda nes bod y Prif Weithredwr wedi rhoi ei diweddariad.
- ii. O ran yr agenda ar gyfer cyfarfod heddiw a'r cyd-destun, dywedodd SE fod yr etholiadau ar gyfer Senedd Cymru ar 6 Mai a bod gofal cymdeithasol yn uchel ar y rhestr blaenoriaethau ym manifestos y prif bleidiau. Bydd y briff rhanddeiliaid a thystiolaeth a baratowyd y llynedd yn cael ei adnewyddu a'i rannu gyda holl aelodau'r Senedd. Bydd y Llywodraeth newydd hefyd yn datblygu ei hymateb i'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar, gyda gwaith newydd posibl i Ofal Cymdeithasol Cymru unwaith y bydd y llywodraeth a'r Cabinet newydd wedi'u ffurfio a rhaglen waith wedi'i chytuno. Bydd SE a'r Cadeirydd yn cyfarfod â CLILC ac ADSS Cymru yn fuan ar ôl yr etholiadau i gyd-drafod blaenoriaethau'r llywodraeth newydd a'r hyn y mae'n ei olygu i'r sector.
- iii. Dywedodd SE wrth y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y dyddiad ar gyfer cofrestru gweithwyr cartrefi gofal i oedolion yn cael ei ohirio tan fis Hydref 2022. O ystyried hyn, mae'r capasiti staffio ychwanegol sydd ei angen i ateb y galw cynyddol yn cael ei fireinio. Bydd yr oedi yn arwain at golli incwm o £500k drwy ffioedd cofrestru hefyd.
- iv. Dywedodd SE fod diweddariad chwarter pedwar ar Gynllun Busnes 2020-21 yn rhoi cyfle i fyfyrion ar flwyddyn heriol pan mae'r sefydliad wedi cyflawni'r disgwyliadau a nodwyd yn y llythyr cylch gwaith ac wedi addasu'n dda i gefnogi'r sector yn ystod y pandemig. Llongyfarchodd SE y Cyfarwyddwyr a'u timau am eu cyflawniadau.
- v. Tynnodd SE sylw at rai o'r eitemau allweddol a oedd ar yr agenda a darparodd rywfaint o gyd-destun ar gyfer y trafodaethau a ddilynodd: -
  - mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2021-22 wedi'i osod yng nghyd-destun adferiad i'r sector, gan symud tuag at ganlyniadau a thargedau. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd rhai o'r amcanion strategol yn cymryd sawl blwyddyn i'w cyflawni ac felly mae'n bwysig cael targedau a cherrig milltir ystyrlon fel rhan o'r Cynllun Busnes ar gyfer 2021-22.
  - bydd dogfen ymgynghori'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn llywio cynllun gweithredu strategol newydd ar gydraddoldeb, tra hefyd yn cysylltu â Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.
  - mae'r eitem ar y newidiadau i reolau'r Radd Gwaith Cymdeithasol yn cysylltu â'r gwaith ar reoleiddio ar gyfer gwella a Strategaeth y Gweithlu. O dan Strategaeth y Gweithlu mae cynlluniau gweithlu ar gyfer cynllun gweithlu'r gweithiwr cymdeithasol cymwysedig, iechyd meddwl a gofal cartref.
  - mae'r papur ISMS yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, yn dilyn trafodaethau ym Mhwyllgor Archwilio a Risg mis Mawrth ac fel rhan o'r gwaith i gryfhau trefniadau

Llywodraethu, ar ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a newidiadau i aelodaeth y Bwrdd sydd ar y gweill.

- vi. Manteisiodd SE ar y cyfle hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o ddatblygiadau eraill, sef: -
- disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu cynlluniau adfer COVID-19 ar gyfer y sector gofal cymdeithasol ac mae'r Cyfarwyddwyr yn cymryd rhan weithredol yn y cyfarfodydd. Bydd hyn yn gofyn am ystywythder a rhywfaint o hyblygrwydd yn y cynllun busnes, y mae'r Bwrdd wedi bod yn gefnogol iddo o'r blaen.
  - Mae lles staff Gofal Cymdeithasol Cymru yn flaenoriaeth o hyd gyda chymorth y Grŵp Iechyd a Lles, y Cyngor Partneriaeth Staff a chyfarfodydd tîm. Mae'r arolwg staff diweddar wedi dangos y byddai'r rhan fwyaf o aelodau staff yn hoffi gweld model hybrid o weithio yn y dyfodol. Ers hynny, mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cyfarfod i ystyried yr adborth o safbwynt angen y busnes, ystyried arfer gorau a'r hyn y mae meysydd gwasanaeth a busnesau eraill yn ei wneud. Yr ethos presennol yw ceisio sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl gyda chyn lleied o darfu â phosibl wrth edrych a oes angen unrhyw newidiadau i gontractau staff ac ati, cyn i unrhyw ddychweliad graddol i'r swyddfa ddechrau.
  - mae'r broses CDP staff newydd, sy'n canolbwyntio ar gefnogi staff i gyflawni eu hamcanion eu hunain ac ar les, yn cael ei chyflwyno a'i gweithredu. Mae'r profiad COVID-19 wedi caniatáu i ddysgu a datblygu fynd yn eu blaen mewn ffordd hyblyg a chefnogol.
- vii. Diolchodd y Cadeirydd i SE am y diweddiariad a oedd yn ddefnyddiol o ran gosod cyddestun y cyfarfod a gofynnodd i'r aelodau am unrhyw gwestiynau neu sylwadau.
- viii. Gofynnodd PM sut y byddai tegwch a chydraddoldeb yn cael eu cyflawni o fewn y sefydliad os bydd newid i weithio'n hyblyg gan fod astudiaethau diweddar wedi dangos y bod gweithio gartref yn llawn amser yn gallu effeithio ar gyfleoedd i gael dyrchafiad, cynnydd a gwelededd. Dywedodd fod angen cymryd amser i ddylunio'r ffordd o weithio yn y dyfodol ac ymgysylltu hefyd â staff i leihau unrhyw risgiau posibl. Dywedodd SE fod amrywiaeth o dystiolaeth ryngwladol wedi'i chasglu i'w hystyried a bod y materion hynny'n cael eu cydnabod. Fodd bynnag, cydnabu hefyd y bydd sicrhau cydraddoldeb a thegwch yn golygu gorfod bod yn fwy gwyladwrus a gofyn am sgysiau ychwanegol gyda phob aelod o staff. Mae modd dangos hyn hyd yma ond mae angen i hyn fod yn broses barhaus.
- ix. Gofynnodd MB a fyddai modd rhannu unrhyw dystiolaeth, ymchwil ac arfer gorau a gesglir ynglŷn â sut mae'r cydbwysedd rhwng gweithio gartref, gweithio o'r swyddfa a gweithio mewn canolfan yn effeithio ar les staff gan fod hyn yn rhywbeth y mae pob cyflogwr yn ei ystyried ar hyn o bryd. Dywedodd SE y byddai'n meddwl am y ffordd orau o gyflawni hyn.
- x. Gofynnodd DB a allai sefydliadau eraill ddefnyddio ein swyddfa i weithio yn y dyfodol i feithrin gweithio mewn partneriaeth. Cadarnhaodd SE fod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried. Ychwanegodd y Cadeirydd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull strategol ehangach mewn perthynas â gweithio mewn canolfannau a'i bod yn bwriadu datblygu dull gweithredu ar gyfer y sector cyhoeddus.

xi. Gofynnodd CC faint o ymgysylltu a fu rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddefnyddio'r data a'r wybodaeth sydd gan y sefydliadau tra bo'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnal yr asesiadau o anghenion y boblogaeth a lles. Dywedodd SE yn fuan ar ôl ei sefydlu fod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi dechrau gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ar y fethodoleg ar gyfer yr asesiad o anghenion y boblogaeth ac wedi defnyddio'r data'n fewnol i lywio'r darlun data cenedlaethol. Ychwanegodd SMC fod gan Gofal Cymdeithasol Cymru sedd yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn rhai ardaloedd ac felly bod cysylltiad uniongyrchol. Fodd bynnag, mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio ychydig yn wahanol, gyda threfniadau llywodraethu amrywiol, ac nid yw'r cysylltiadau mor uniongyrchol, yn aml drwy is-grwpiau'r gweithlu. Mae gwaith ar y porth data wedi'i rannu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a bydd hyn yn cael ei fireinio yn ystod 2021-22. Dywedodd SMC y byddai'n trefnu i swyddogion ysgrifennu at arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w hatgoffa o fanteision posibl y porth data a'r cymorth sydd ar gael gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

### **GWEITHREDU**

- xii. Adleisiodd AH yr angen i fod yn hyblyg wrth ystyried Cynllun Busnes 2021-22 i ganiatáu hyblygrwydd i ymateb i'r rhaglen sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Papur Gwyn. Pwysleisiodd AH hefyd fregusrwydd y sector gan fod nifer o sefydliadau'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan grantiau COVID-19 ac efallai y byddant mewn trafferthion unwaith y bydd y grantiau'n dod i ben, sy'n rhywbeth y mae'r Papur Gwyn yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Gan gyfeirio at sgysiau cynharach ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r angen i ledaenu arloesedd ac arferion da, nododd AH fod Bwrdd Powys wedi sefydlu Academi ar gyfer hyfforddi a recriwtio staff iechyd a gofal.
- xiii. Dywedodd SE wrth y Bwrdd fod sesiwn wedi'i chynnal ar 28 Ebrill gyda Supporting Adult Social Care Innovation (SASCI). Rhaglen yn Lloegr yw hon, ond rydym yn edrych ar gyfleoedd i gefnogi'r rhaglen yng Nghymru. Mae cysylltiadau hefyd â gweithgareddau 'mabwysiadu a lledaenu' Comisiwn Bevan yn ogystal ag academi dysgu dwys newydd sy'n canolbwyntio ar gefnogi mabwysiadu 'beth sy'n gweithio' yn eang ac yn gyflym.
- xiv. Cyfeiriodd SE at y Llythyr Cylch Gwaith sy'n ei gwneud yn glir am y tro cyntaf mai Gofal Cymdeithasol Cymru yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer gwella gwasanaethau yng Nghymru. Mae hyn yn ddefnyddiol, o ystyried bod sefydliadau eraill hefyd yn defnyddio eu gallu a'u hadnoddau i gefnogi iechyd a gofal cymdeithasol ond mae'n golygu bod yn rhaid i ni weithio'n dda gyda phartneriaid i osgoi dyblygu a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu.
- xv. O ran cadw mewn cysylltiad â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dywedodd SE fod nifer o ffyrdd o wneud hyn drwy is-grwpiau'r gweithlu, lle ceir ymgysylltiad gweithredol â'r rheolwyr dysgu a datblygu sy'n bwydo i mewn i grwpiau cynllunio'r Byrddau Partneriaeth. Fel y soniodd SMC yn gynharach, byddai'n ddefnyddiol ysgrifennu at y Byrddau Partneriaeth eto a chynnig cyfarfod â'r Byrddau lle nad yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn aelod o'r Bwrdd ar hyn o bryd. Byddai hyn yn amserol yng ngoleuni datblygiad y cynllun strategol newydd.



- xvi. Awgrymodd y Cadeirydd ei fod ef ac SE yn trafod y materion y tu allan i'r cyfarfod er mwyn ystyried sut y gall y sefydliad ymgysylltu'n well â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i archwilio'r cyfleoedd i gryfhau'r bartneriaeth. **GWEITHREDU**

## 7. Cynllun Busnes 2021-22

- i. Cyflwynodd SE Gynllun Busnes 2021-22 sydd wedi'i lunio ar ôl derbyn y Llythyr Cylch Gwaith a'r dyraniad cyllideb. Dywedodd fod y cynllun busnes yn uchelgeisiol, a bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd i addasu a newid yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i ddatblygiadau, yn enwedig mewn ymateb i raglen lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r Papur Gwyn. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd angen cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar unrhyw newidiadau a drafodir ac y cytunir arnynt yn ystod y cyfarfod,
- ii. Nododd SE y prif feysydd yn y Cynllun Busnes.
- iii. O ran pethau i'w cyflawni, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar: -
- gynnal ac addasu ein gweithgareddau craidd yn sgil COVID-19,
  - cefnogi adferiad,
  - cynyddu cynaliadwyedd y sector.
- iv. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'r pethau hynny i'w cyflawni ar anghenion pedwar grŵp, sef: -
- y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar
  - rheolwyr, arweinwyr a pherchnogion
  - arweinwyr strategol, rhanddeiliaid a phartneriaid
  - ein sefydliad ein hunain.
- v. Dywedodd SE fod y cynllun hefyd yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol sy'n sail i gyflawni'r cynllun ac yn nodi'r dyraniadau ariannol y mae'n seiliedig arnynt. O ran cyllid, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch natur gylchol dyraniad cyllideb 2021-22 wrth symud ymlaen ac mae adran wedi'i chynnwys ar y cefndir ariannol a'r tybiaethau i adlewyrchu hyn. O ran llywodraethu corfforaethol, mae rhai gweithgareddau'n addas ar gyfer cerrig milltir a thargedau tra bod gan eraill, mewn perthynas ag amcanion gwella a datblygu yn bennaf, amserlenni estynedig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau tymor hwy.
- iv. Diolchodd y Cadeirydd i SE am ei throsolwg a gofynnodd am sylwadau a chwestiynau. Gofynnodd i'r Aelodau ganolbwyntio ar sylwedd y cynllun ac awgrymodd y dylid e-bostio unrhyw bwyntiau ar fanylion neu faterion gramadegol at swyddogion y tu allan i'r cyfarfod. Dywedodd hefyd, ar ddiwedd y drafodaeth, y byddai'n cynnig y dylai cynrychiolwyr y Bwrdd ddirprwyo'r gymeradwyaeth derfynol i'r Cynllun Busnes i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol fel y gellid ymgorffori unrhyw beth sy'n deillio o'r drafodaeth yn y cynllun cyn iddo gael ei anfon i Lywodraeth Cymru.

- v. Dywedodd KH ei bod yn hapus i gefnogi'r Cynllun Busnes. Teimlai fod gosod y cyddestun ar ddechrau'r ddogfen yn ddarbwyllol iawn. Roedd yn dangos agosrwydd y sefydliad at waith y sector dros y flwyddyn ddiwethaf, tra hefyd yn cydnabod yr anghydraddoldeb a fydd yn llywio gwaith yn y dyfodol. Gan gyfeirio at faes blaenoriaeth pedwar, a myfyrio ar drafodaethau blaenorol, gofynnodd KH a ellir cyfeirio at y sefydliad yn dod yn 'wyrdd' ac yn effeithlon o ran ynni, efallai drwy gyhoeddi adroddiad cynaliadwyedd neu ddatganiad amgylcheddol blynyddol.
- vi. Dywedodd SE fod y sgwrs ynglŷn â ffyrdd newydd o weithio wedi cynnwys ystyried y budd i'r hinsawdd yn sgil llai o deithio, ond gellir ystyried yn awr sut y gellir cryfhau hyn o fewn y Cynllun Busnes. Dywedodd AL fod yr enillion amgylcheddol a gyflawnwyd hyd yma wedi bod yn ganlyniad i'r pandemig yn hytrach nag o ganlyniad i ddull strwythuredig ond cytunodd y gellid ychwanegu datganiad at y Cynllun Busnes nawr ac y gellid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ddull mwy strwythuredig, fel bod yn garbon niwtral erbyn 2030 fel rhan o'r Cynllun Strategol newydd.
- vii. Dywedodd PM fod y Cynllun a lefel yr uchelgais ynddo yn galonogol. Yn benodol, tynnodd sylw at ddau ymadrodd: 'bydd popeth a wnawn yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd uchel cymorth a gofal' a 'cael sgysiau ystyrion [...â phartneriaid] ac adlewyrchu safbwyntiau cyn y gwneir penderfyniadau'. Teimlai fod y rhain yn ystyriaethau pwysig yr oedd angen eu hadlewyrchu'n llawn yn y ffordd y mae'r Bwrdd a'r sefydliad yn gweithio.
- viii. Yn ogystal, cododd PM nifer o faterion y byddai'n croesawu ymateb iddynt. Yn gyntaf, roedd yn pryderu nad oes cyfeiriad o fewn y cynllun at gomisiynu nac at gyflog a thelerau ac amodau'r gweithlu. Teimlai fod y ddau fater hyn yn hollbwysig i gynaliadwyedd y sector yn y dyfodol a gallai'r ffaith nad oeddent yn cael eu hadlewyrchu olygu na fyddai'r cynllun yn cael ei ystyried yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio yn y sector. Yn ail, teimlai nad oedd y cynllun yn cyfeirio'n ddigonol at reoleiddio ar gyfer gwella, sy'n egwyddor allweddol i'r sefydliad. Yn drydydd, nid oedd diffiniad o'r term arweinwyr strategol felly roedd yn anodd gwybod at bwy yr oedd yn cyfeirio. Yn olaf, roedd yn meddwl tybed a ellid datblygu 'cynllun ar dudalen' pwrpasol dros y flwyddyn ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid.
- vix. Ymatebodd SE i sylwadau PM, gan ddweud yn gyntaf fod comisiynu a thelerau ac amodau gwasanaeth yn rhywbeth sydd y tu hwnt i reolaeth y sefydliad. Fodd bynnag, mae gan y sefydliad ddylanwad sylweddol drwy ei gyfraniad gweithredol at y Fforwm Gwaith Teg ac fel aelod o'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Dywedodd y byddai'n ystyried sut y gellid adlewyrchu hyn yn well yn y cynllun presennol. O ran diffinio arweinwyr strategol, byddai'n anodd datblygu rhestr gan fod partneriaid newydd yn cael eu datblygu drwy'r amser ond awgrymodd y gallai'r Bwrdd edrych ar hyn yn fanylach yn ystod y sesiwn ar ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi'i chynnwys yn rhaglen Datblygu'r Bwrdd. Cytunodd hefyd i edrych ar sut y gellid cryfhau cyfeiriadau at 'reoleiddio ar gyfer gwella' ac ystyried gwerth datblygu 'cynllun ar dudalen' ar gyfer y tair prif gynulleidfa.
- x. Diolchodd PM i SE am ei hymatebion. Cytunodd efallai na fyddai'n ymarferol rhestru sefydliadau penodol fel arweinwyr strategol ond credai ei bod yn bwysig diffinio pa fath o sefydliad sy'n cael ei gynnwys yn y term. Ychwanegodd SMC fod 'arweinwyr

strategol' yn cael eu diffinio fel y rhai sy'n edrych ar draws ardal neu gymuned yn hytrach nag un darparwr gwasanaeth.

- xi. Dywedodd CC ei fod yn cefnogi'r Cynllun Busnes a'i fod yn ddiolchgar am y gwaith a wnaed i gynhyrchu'r ddogfen. Fodd bynnag, roedd yn ei chael hi'n anodd gweld sut roedd cyfraniadau aelodau yn ystod sesiwn ddatblygu ddiweddar y Bwrdd wedi dylanwadu ar gynnwys y cynllun a chredai y gallai fod yn ddefnyddiol gweld fersiwn gyda newidiadau wedi'u marcio neu eu huwcholeuo yn dangos unrhyw newidiadau yn y dyfodol.
- xii. Cyfeiriodd CC hefyd at y defnydd o'r gair 'cwsmer' yn y Cynllun a gofynnodd ai dyna sut roeddem yn gweld y bobl rydym yn gweithio gyda nhw. Iddo ef, mae'r term 'cwsmer' yn awgrymu perthynas drafodol. I'r rhan fwyaf o sefydliadau neu gyrff y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda nhw, nid oes perthynas drafodol. Yn hytrach, mae'n berthynas gydweithredol neu bartneriaeth. Am y rheswm hwnnw, tybed ai cwsmer yw'r gair cywir i'w ddefnyddio? Dywedodd CC hefyd, er bod y cynllun yn rhestru grwpiau, sefydliadau a chymdeithasau y mae'r sefydliad yn gweithio gyda nhw, nid yw fel pe bai'n cynnwys unrhyw un sy'n cynrychioli gofalwyr di-dâl, er iddo nodi bod CGGC wedi'i chynnwys.
- xiii. Wrth ymateb i sylwadau CC, dywedodd SE o ran rôl y sefydliad yn cefnogi gofalwyr di-dâl, ei bod yn bwysig nad ydym yn 'sathru ar draed' eraill sy'n gweithio yn y maes hwn a'i bod, mewn tirwedd gymhleth, yn anodd rhestru sefydliadau i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei hepgor. Ar y sail honno, mae CGGC wedi'i chynnwys fel sefydliad ymbarél ar gyfer pob grŵp gwirfoddol yng Nghymru. Gan gyfeirio at y defnydd o'r term 'cwsmer', mae hyn yn adlewyrchu uchelgais y sefydliad i ganolbwyntio mwy ar anghenion y rhai rydym yn gweithio gyda nhw a bod yn fwy ymatebol iddynt. Nid yw'n cael ei ddefnyddio i awgrymu trafodiad ariannol; yn hytrach mae'n dangos ein bod ni, fel corff cyhoeddus, am ddiwallu ac ymateb i anghenion y bobl rydym yn delio â nhw. Wedi dweud hynny, byddai'n gweithio gyda'r tîm i ystyried a oes gair gwell i'w ddefnyddio. Mewn perthynas â chwestiwn CC am ddylanwad y Bwrdd ar y drafft terfynol, fe'i sicrhodd fod y drafodaeth yn y sesiwn ddatblygu wedi llywio datblygiad pellach y drafft terfynol ond derbyniodd y gallai rhoi fersiwn gyda'r newidiadau wedi'u marcio ar y porth fod wedi bod yn ddefnyddiol i ddangos hynny.
- xiv. Dywedodd CC ei fod yn hapus gyda'r ymatebion ond pwysleisiodd fod gofalwyr di-dâl yn rhan bwysig o ddarpariaeth gofal. Cydnabu fod CGGC yn gorff ymbarél ar gyfer y trydydd sector ond pwysleisiodd eto fod gofalwyr di-dâl yn agwedd bwysig ar ofal sy'n cael ei anghofio weithiau, a dyna pam yr oedd yn teimlo bod angen tynnu sylw ati'n benodol.
- xv. Ategodd EB sylwadau CC ar y defnydd o'r gair cwsmer. Dywedodd hefyd fod buddiannau pobl ifanc yn ganolog i'r cynllun ond nad oes manylion yn y cynllun ynglŷn â sut y bydd eu barn yn cael ei hadlewyrchu sy'n gwneud i'r cynllun ymddangos braidd yn arwynebol yn hyn o beth. Roedd hefyd yn meddwl o safbwynt ehangach am ein perthynas â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gan nad oes cyfeiriad ati yn y Cynllun ar hyn o bryd.
- xvi. Dywedodd SE fod cynnwys lleisiau pobl ifanc hefyd yn faes lle'r ydym yn gweithio gydag eraill yn hytrach nag arwain yn uniongyrchol, er ei bod yn egwyddor bwysig o

ran y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio. Tynnodd SE sylw at nifer o enghreifftiau diweddar lle'r oedd pobl ifanc wedi cyfrannu'n weithredol at ddatblygu mentrau, gan gynnwys y gynhadledd gofal preswyl i blant a datblygu grŵp cyfeirio arbenigol sy'n gweithio ochr yn ochr â Chomisiynydd Plant Cymru.

- xvii. Dywedodd EB ei bod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud. Fodd bynnag, nid oedd yn teimlo bod hyn yn ddigon amlwg yn y ddogfen i'r cyhoedd ac roedd yn credu bod y sefydliad yn gallu bod yn rhy dadedog wrth hyrwyddo ei waith ar adegau. Mewn ymateb, myfyriodd SE ar y sylwadau blaenorol gan CC a PM a chytunodd fod angen ailfeddwl unwaith y cytunir ar y cynllun ynghylch sut i hyrwyddo gwaith y sefydliadau fel ffordd o ennyn diddordeb eraill.
- xviii. Ychwanegodd PM fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn gwneud rhywfaint o fentora o chwith gyda phobl ifanc, gan roi cyfle iddynt fentora pobl mewn rolau arwain. Gofynnodd a yw hyn yn rhywbeth y gellid ei gynnwys yn ein gwaith? Dywedodd MB hefyd fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cyflwyno mentora o chwith ar gyfer y Bwrdd gyda grwpiau o bobl ifanc, staff rheng flaen a staff BAME. Teimlai fod hyn yn ffordd wych o glywed am brofiadau pobl go iawn a chael eu dylanwadu ganddynt a meddyliodd tybed a oedd yn rhywbeth y dylai'r Bwrdd ei ystyried.
- xix. Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am eu sylwadau a'u cyfraniadau a rhoddodd grynodedeb o'r trafodaethau a oedd wedi'u cynnal. Credai y byddai'n deg dweud bod cefnogaeth eang i Gynllun Busnes 2021-22. Yn benodol, teimlai'r aelodau fod y cyddestun wedi'i nodi'n dda a bod yr uchelgais yn y cynllun yn briodol er eu bod yn cydnabod bod angen rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn gallu addasu wrth i'r llywodraeth newydd gael ei ffurfio ac wrth i'w chynlluniau ddod i'r amlwg.
- xx. Gwnaed nifer o awgrymiadau defnyddiol y bydd swyddogion yn eu hystyried ac yn eu hymgorffori mewn fersiwn derfynol i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Gellid crynhoi'r prif faterion i'w hystyried fel a ganlyn: -
- mae angen datganiad cliriach o'n huchelgeisiau i ddatblygu sefydliad gwyrddach yn y cynllun a fydd yn cael ei ddatblygu a'i adeiladu arno ymhellach yn y Cynllun Strategol.
  - byddai'r sector yn chwilio am ymateb ynghylch comisiynu a thelerau ac amodau a dylid nodi'r materion hyn yn gliriach yn y cynllun.
  - dylai'r cynllun fod yn fwy clir ynglŷn â'r hyn a olygir gan y term arweinydd strategol.
  - dylid ystyried sut y gellid dod â'r cynllun yn fyw a sut y gellir hyrwyddo'r gwaith y mae'r sefydliad yn ei wneud wrth symud ymlaen.
  - cafwyd safbwyntiau cymysg am y defnydd o'r gair 'cwsmer' ac er eu bod yn cydnabod ei bod yn anodd dod o hyd i ddewis arall addas, roedd rhai o'r farn bod angen rhoi sylw i sut y gellid mynd i'r afael â hyn.
  - roedd angen ystyried sut y gellid cydnabod cyfraniad gofalwyr di-dâl yn well yn ogystal â chynnwys lleisiau pobl ifanc a dylid cario'r materion hyn ymlaen i'r Cynllun Strategol hefyd.
- xxi. Tynnodd y Cadeirydd sylw at ddau fater ehangach a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau hefyd. Yn gyntaf, mae angen darparu llwybrau archwilio clir yn y dyfodol, naill ai drwy farcio newidiadau neu restr o welliannau i ddangos sut yr oedd cyfraniadau aelodau

wedi dylanwadu ar ddrafftiau diweddarach o ddogfennau allweddol. Yn ail, cafwyd rhai cyfraniadau defnyddiol yn tynnu sylw at fanteision posibl mentora o chwith y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn eu hystyried y tu allan i'r cyfarfod, yn bosibl drwy Grŵp Cydlynu'r Cadeiryddion. **GWEITHREDU**

- xxii. Yn amodol ar yr ystyriaethau hynny, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Busnes 2021-22 mewn egwyddor a **dirprwyodd** y gymeradwyaeth derfynol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

## 8. Dogfen ymgynghori'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

- i. Cyflwynodd AA yr adroddiad i'r Bwrdd a phwysleisiodd fod y papur yn ceisio cymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol y sefydliad, yn amodol ar y risgiau a nodwyd yn y papur. Wrth wneud hynny, tynnodd sylw at nifer o faterion y dylai aelodau eu hystyried wrth ddod i benderfyniad, fel a ganlyn: -
- mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i llywio gan adroddiadau penodol i Gymru sydd wedi amlygu'r anghydraddoldebau a brofir gan unigolion a chymunedau yn ystod y pandemig presennol.
  - ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru, mae Diverse Cymru wedi ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig i brofi'r amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth arfaethedig. Roedd yr adborth a ddarparwyd yn dangos bod pobl yn teimlo bod y ffocws ar y meysydd cywir.
  - mae'r papur yn nodi nifer o'r ymgynghoriadau a'r ymchwiliadau arwyddocaol sy'n digwydd ar hyn o bryd, a bydd angen cynnwys y rhain yn y fersiwn derfynol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol unwaith y cyhoeddir y canfyddiadau a'r casgliadau, sef: -
    - ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru ar eu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol sy'n rhoi rôl arweiniol i Ofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â'r sector gofal cymdeithasol.
    - yr ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i brofiad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar gyflogau isel yn ystod y pandemig a gyhoeddir yn fuan.
    - cynllun gweithredu LGBTQ+ Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac a fydd hefyd yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.
  - mae dogfen ymgynghori Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i chadw ar lefel uchel iawn i sicrhau pan fydd canlyniad yr ymgynghoriadau a'r ymchwiliadau eraill hynny yn glir, y gellir cynnwys unrhyw gamau gweithredu yn y cynllun.
  - mae'r ddogfen yn mynd y tu hwnt i gydraddoldeb ac amrywiaeth gyda neges glir am wrth-wahaniaethu a'r rôl arweiniol a fydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, yn y sectorau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.
- ii. Diolchodd y Cadeirydd i'r AA am ei drosolwg clir a chryno o'r papur a gofynnodd am sylwadau neu gwestiynau ar y papur.

- iii. Pan fydd yr ymgysylltu'n digwydd, gofynnodd DB nad yw hyn yn cael ei wneud gyda'r un grŵp o bobl gan fod angen ymgysylltu â'r rhai anos eu cyrraedd mewn cymunedau a gwrando arnynt. Ychwanegodd y Cadeirydd hefyd y byddai'n ddefnyddiol cael dealltwriaeth o bwy y mae disgwyl iddynt ymateb i'r ymgynghoriad.
- iv. Dywedodd AA fod y gofyniad i ymgysylltu â'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig yn ddyletswydd o fewn y ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac mae hynny wedi'i wneud. Y cam nesaf fydd cysylltu â dinasyddion, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r sector gofal cymdeithasol. Mae angen hefyd ceisio barn y sector cyhoeddus ehangach gan fod yr amcanion cydraddoldeb yn effeithio ar arweinwyr, cyflogwyr, y gweithlu a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Cadarnhaodd AA y bydd cynllun cyhoeddi a chyfathrebu i gyd-fynd â'r ymgynghoriad a byddai cyfle i unigolion neu sefydliadau sydd â diddordeb gael trafodaeth uniongyrchol gydag AA i roi adborth.
- v. Ychwanegodd JM y bydd hi'n bwysig ystyried pa fecanweithiau ymgynghori sy'n cael eu defnyddio er mwyn osgoi ymddangos yn symbolaidd a sicrhau bod grwpiau anos eu cyrraedd yn cael eu cynnwys. Awgrymodd hefyd fod gwaith y sefydliad mewn perthynas â'r Gofrestr ac Addasrwydd i Ymarfer wedi'u cynnwys yn benodol yn yr adran 'Yr Hyn a Wnawn'. Mae hwn yn weithgaredd craidd i'r sefydliad, ac nid oes sôn amdano.
- vi. Gofynnodd PM a fyddai'n ddefnyddiol casglu gwybodaeth am y math o sefydliad sy'n ymateb yn hytrach na'r enw yn unig. Gan fyfyrto ar y sgwrs gynharach ar Genedlaethau'r Dyfodol a'r amgylchedd, gofynnodd a ddylid ychwanegu tlodi a'r Gymraeg fel rhan o'r ymgynghoriad hefyd.
- vii. Diolchodd SB i'r AA am yr eglurder yn yr adroddiad a'i naws hyderus; teimlai fod hyn yn bwysig wrth drafod materion mor sensitif. Roedd yn falch o weld grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac ymylol yn cael eu hadlewyrchu yn ogystal â'r mater o dâl i fenywod mewn gweithlu sy'n cynnwys menywod yn bennaf. Awgrymodd SB y gallai fod yn ddefnyddiol cael straeon unigol i ddangos sut y gellir rhoi'r camau gweithredu yn y cynllun ar waith fel ffordd o ddod â'r strategaeth yn fyw.
- viii. Ychwanegodd TP sylw cyffredinol. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i rhoi ar sefydliadau ers sawl blwyddyn bellach ac er y cafwyd rhywfaint o welliannau o ran strategaethau ac asesiadau effaith, mae yna deimlad bellach ei bod yn un ddyletswydd arall ar restr hir ohonynt i sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae'r cyfeiriad at y sefydliad fel arweinydd yn y maes hwn yn galonogol yn ogystal â'r datganiad clir bod y sefydliad yn symud o gydraddoldeb i wrth-wahaniaethu. Fodd bynnag, teimlai nad oedd hyn yn cael ei gyfleu cystal ag y gallai yn y ddogfen ei hun. Cyfeiriodd TP at eitem ar y newyddion dim ond y bore hwnnw ar y cyfraddau sy'n manteisio ar y brechiad COVID-19 a sut roeddent yn amrywio yn dibynnu ar gefndir a thlodi. Mae hyn yn dangos bod y rhain yn faterion gwirioneddol a chyfredol. Roedd TP hefyd yn falch o weld cyfeiriad at gynhwysiant digidol o ganlyniad i effaith COVID-19.
- ix. Diolchodd AA i'r aelodau am eu sylwadau a'u cwestiynau a dywedodd y byddai'n cryfhau'r ddogfen fel yr awgrymwyd. Roedd gwrthdlodi a'r Gymraeg wedi'u cynnwys mewn fersiynau blaenorol a byddant yn cael eu cynnwys drachefn yn dilyn sylwadau'r aelodau.

- x. Gofynnodd y Cadeirydd i AA egluro beth fyddai'r camau nesaf. Dywedodd AA mai'r bwriad oedd cynnal ymgynghoriad ffurfiol am gyfnod o 12 wythnos o 1 Mehefin i 17 Awst. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei ddrafftio wedyn i ystyried ymgynghoriad cyfredol Llywodraeth Cymru, canlyniad ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac unrhyw gynlluniau gweithredu eraill y mae Llywodraeth Cymru am iddynt gael eu hystyried. Bydd y cynllun wedyn yn dod yn ôl i'r Bwrdd ym mis Hydref gydag amcanion, camau gweithredu a metrigau clir.
- xi. Gofynnodd JK a fyddai newid yn y Llywodraeth yn effeithio ar yr amserlenni ar gyfer datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a doedd AA ddim yn credu y byddai. Mae'r rhain yn faterion bywyd go iawn cyfredol y bydd angen mynd i'r afael â nhw ta waeth am unrhyw newidiadau posibl.
- xii. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cwestiynau a sylwadau a rhoddodd grynodedeb o'r drafodaeth. Roedd yn amlwg bod llawer iawn o gefnogaeth i'r papur a llawer o werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed.
- xii. Diolchodd y Cadeirydd i AA am ysgwyddo cyfrifoldeb dros y mater hwn a soniodd am werth cael rhywun â'i wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i ymrwymiad personol i fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn ar ran y Bwrdd a'r sefydliad. Roedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr.
- xiii. Cytunodd y Bwrdd ar y ddogfen ymgynghori mewn egwyddor a **dirprwywyd** y gymeradwyaeth derfynol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn amodol ar ystyriaeth o'r materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod.
- xiv. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd y gellid cynnwys trafodaeth am y cynllun a chanlyniadau'r ymgynghoriad yn rhaglen Sesiwn Ddatblygu'r Bwrdd.

## **9. Newidiadau i 'Y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru 2018' (Rheolau'r Radd Gwaith Cymdeithasol)**

- i. Rhoddodd HD drosolwg o'r papur i'r Bwrdd a thynnodd sylw at y newidiadau arfaethedig y byddai'r rheolau diwygiedig yn eu cyflwyno pe baent yn cael eu cymeradwyo. Mae'r tabl yn yr adroddiad yn nodi'r newidiadau penodol a gynigir. Dywedodd HD y byddai'n hapus i ateb unrhyw gwestiynau ar y newidiadau arfaethedig hynny.
- ii. Ar y cyfan, roedd y newidiadau'n rhai gweinyddol ac wedi'u cynllunio i ddiogelu'r radd yn y tymor byr i ganolig. I bob pwrpas, byddai'r Rheolau diwygiedig yn rhoi'r cyfle i ymateb mewn ffordd hyblyg i argyfwng fel pandemig arall.
- iii. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi bod safonau addysg lefel gradd i weithwyr cymdeithasol wedi'u cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf fel cefndir i'r newidiadau, er gwaethaf yr hyblygrwydd cynyddol a roddwyd i Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) a myfyrwyr i ymateb i effaith COVID-19.
- iv. Ychwanegodd HD hefyd fod y Cynllun Busnes eleni yn cynnwys cynnig i gomisiynu ymchwil ar effaith COVID-19 ar weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ac i

adolygu'r ffordd y caiff nifer y lleoliadau eu neilltuo i gyrsiau. Gall hyn nodi newidiadau tymor hwy sydd eu hangen i'r Rheolau yn y dyfodol.

- v. Diolchodd y Cadeirydd i HD am ei drosolwg a gofynnodd i'r Aelodau am eu cwestiynau neu eu sylwadau.
- vi. Dywedodd EB ei bod yn cytuno â'r newidiadau sy'n gwneud synnwyr yng ngoleuni'r amgylchiadau presennol.
- vii. Ychwanegodd AH at sylwadau HD mewn perthynas â'r adolygiad o brofiad go iawn pobl yn ystod y pandemig. Dywedodd y byddai'n ddoeth oedi a myfyrio ar yr ymatebion hynny ar ôl iddynt ddod i law. Er y bydd yr ymateb cychwynnol wedi cael effaith ar bobl ar unwaith, y cyfle gwirioneddol yw defnyddio'r wybodaeth i nodi'r hyn sydd ei angen ar bobl o ran gofal a chymorth ar ôl COVID-19 ac, yn benodol, sut y gellir galluogi hynny'n ddigidol. Mae'n bwysig caniatáu amser i'r sefyllfa setlo er mwyn gallu deall yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd ac yna creu'r cydbwysedd cywir rhwng gofal ymarferol a'r hyn y gellir ei ddarparu'n ddigidol. Bydd hynny wedyn yn golygu bod modd nodi'r effaith ar hyfforddiant a dysgu i'r gweithlu.
- viii. Cytunodd HD â sylwadau AH ac ychwanegodd y bydd SCIE yn ymgymryd ag elfen gwmpasu'r ymchwil a fydd wedyn yn llywio'r dull tymor canolig i hirdymor. Ychwanegodd EB er bod pobl yn sôn am ddod allan o'r pandemig, mae angen cydnabod nad yw'r effaith ar waith cymdeithasol wedi dechrau eto.
- ix. Mae KH yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig a dywedodd fod parhad wedi'i gynnal drwy gydol y flwyddyn a bod yr asesiad o ymarfer wedi parhau mewn ffordd effeithiol yn ystod amgylchiadau anodd. Teimlai fod y gostyngiad yn y gofyniad am brofiad yn newid pwysig a fyddai'n gwella cynhwysiant ac yn lleihau anghydraddoldebau posibl. Roedd hefyd yn cefnogi'r egwyddor o barhad a chynnal niferoedd sy'n dod drwy'r radd gwaith cymdeithasol yn y dyfodol.
- x. Diolchodd HD i KH am ei sylwadau ac am dynnu sylw at y pethau cadarnhaol sydd wedi deillio o'r anawsterau a brofwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cael profiad o ddysgu o bell yn eu hastudiaethau academiaidd a dysgu ymarfer yn debygol o fod yn fuddiol i ddysgwyr a'u paratoi ar gyfer yr heriau gwaith sydd o'u blaenau.
- xi. Gofynnodd y Cadeirydd sut y penderfynwyd ar y gofyniad ymarfer o 360 awr. Dywedodd HD fod y nifer yn y rheolau presennol yn hanesyddol ac nad oedd ei wreiddiau'n gwbl glir. Fodd bynnag, o ran newidiadau i nifer yr oriau, roedd y ffigur hwn yn seiliedig ar ymgynghoriad â phartneriaid yn y sector a deimlai fod y lefel uwch wedi bod yn rhwystr o'r blaen. Mae 360 awr tua 10 wythnos o brofiad ar 36 awr yr wythnos ac erbyn hynny dylai fod gan unigolion syniad da a yw hon yn yrfa y maent yn dymuno ei dilyn ai peidio.
- xii. Gofynnodd y Cadeirydd am y penderfyniad i beidio ag ymgynghori'n ffurfiol a gofynnodd am sicrwydd bod hwn yn benderfyniad priodol. Sicrhaodd HD y Bwrdd fod ymgysylltu eisoes wedi'i wneud â phartneriaid allweddol ar y newidiadau hyn. Mae saith partneriaeth ledled Cymru ac mae pob un ohonynt yn gweithio fymryn yn wahanol i'w gilydd. Fodd bynnag, mae'r newidiadau arfaethedig yn cael eu derbyn fel



dull cymesur a hyblyg sy'n diogelu lles myfyrwyr ac mae pob un o'r partneriaethau wedi cytuno y gallant weithio oddi mewn i'r newidiadau.

- xiii. Gofynnodd y Cadeirydd pa fesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau bod yr hyblygrwydd yn y Rheolau yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol ac yn gymesur yn y dyfodol. Dywedodd HD fod amryw o fesurau diogelu ar waith i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r Rheolau sy'n cael eu gweithredu yn briodol. Er enghraifft, bydd y broses Sicrhau Ansawdd yn sicrhau nad oes unrhyw wyro oddi wrth ddisgwyliadau a bod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a ddisgwyilir gan fyfyrwyr yn golygu bod yn rhaid i fyfyrwyr ddangos lefel o ymarfer i gyflawni cwblhad academaidd. Ceir adborth rheolaidd gan SAU a fforymau myfyrwyr a all roi adborth uniongyrchol i Lywodraeth Cymru os ydynt yn teimlo nad yw'r rhaglenni a ddarperir yn addas ar gyfer eu hanghenion.
- x. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y Newidiadau i 'Y Fframwaith ar gyfer y Radd Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru 2018' (Rheolau'r Radd Gwaith Cymdeithasol).

## 10. Diweddariad ar y System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth

- i. Rhoddodd AL drosolwg o'r papur i'r Bwrdd. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg eisoes wedi craffu ar gefndir y papur.
- ii. Esboniodd AL fod y sefydliad wedi ennill achrediad ISO27001 mewn perthynas â'i Systemau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (ISMS) yn y gorffennol. Fodd bynnag, roedd y dystysgrif achredu i fod i gael ei hadnewyddu ym mis Ebrill 2021. Ym mis Chwefror 2021, cynhaliwyd archwiliad allanol i baratoi ar gyfer y broses ail-ardystio ffurfiol, a nododd hyn bum enghraifft o bwys o ddiffyg cydymffurfiaeth a fyddai wedi atal y dystysgrif rhag cael ei hadnewyddu. Aethpwyd i'r afael â'r diffygion hyn ar unwaith a chynhaliwyd ymweld arall ar 12 Ebrill. Cadarnhaodd hyn fod yr holl enghreifftiau o bwys o ddiffyg cydymffurfiaeth wedi cael sylw a chafodd y dystysgrif achredu ei dyfarnu.
- iii. Mewn ymateb i'r sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, cafodd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth ei ailgynnull ac mae wedi cyfarfod ddwywaith i adolygu'r rhaglen waith ac i nodi gweithgareddau pellach y mae angen eu cyflawni dros y tri mis nesaf. Roedd un cam gweithredu heb ei gyflawni o'r enghreifftiau o bwys o ddiffyg cydymffurfiaeth, sef tendro am wasanaeth archwilio mewnol ISO arbenigol tair blynedd. Dywedodd AL y byddai hyn yn digwydd ym mis Medi 2021 gan fod archwilwyr wedi'u penodi ar sail tymor byr i gefnogi'r ail-ardystio. Fodd bynnag, nid oedd yn atal yr ardystiad rhag cael ei ddyfarnu.
- iv. Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Risg wybod am y mater gwreiddiol wrth iddo ddod i'r amlwg a bydd yn derbyn yr adroddiadau archwilio perthnasol yn ogystal â chrynodeb o'r cynllun gweithredu yn ei gyfarfod nesaf. Disgwyilir yr archwiliad interim nesaf gan y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) ym mis Gorffennaf 2021 sy'n rhoi'r ffocws i fwrw ati gyda'r camau gweithredu a nodwyd fel rhan o'r cynllun gweithredu.
- v. Dywedodd AL fod dwy ystyriaeth tymor hwy wedi dod i'r amlwg o'r materion, un ohonynt oedd y dylid ychwanegu seibergadernid yn ffurfiol at Gylch Gorchwyl y

Pwyllgor Archwilio a Risg wrth symud ymlaen a'r llall oedd bod Grŵp Cydlynu'r Cadeiryddion (CCG) yn cynghori'r Cadeirydd ar opsiynau yn y dyfodol i sicrhau bod seibergadernid a gwybodaeth am systemau gwybodaeth yn rhan o set sgiliau gyffredinol y Bwrdd.

- vi. Mae'r Cadeirydd yn diolch i AL am y trosolwg ac yn gofyn am gwestiynau neu sylwadau gan yr Aelodau.
- vii. Diolchodd TP i AL am yr adroddiad ac, fel aelodau eraill o'r Bwrdd, cafodd ei syfrdanu i ddechrau gan y diffyg cydymffurfio a oedd wedi dod i'r amlwg drwy'r archwiliad allanol diweddar. Fodd bynnag, roedd bellach yn teimlo'n sicr bod y sefyllfa dan reolaeth a bod rhaglen waith ar y gweill i gefnogi'r gwelliannau angenrheidiol. Teimlai TP fod hyn yn adlewyrchu'r bylchau a'r wybodaeth ar lefel Bwrdd yn y maes hwn yn ogystal â mynediad at sgiliau arbenigol i gefnogi'r Bwrdd pan fo angen.
- viii. Nododd DB fod canolfannau seiber ledled Cymru sydd wedi'u sefydlu gan y llywodraeth y gellid eu defnyddio, yn ogystal â chysylltiadau ag adnoddau GCHQ sydd ar gael. Diolchodd y Cadeirydd i DB am ei sylwadau a'i sicrhau bod y rheini'n adnoddau sydd eisoes yn cael eu defnyddio a bod hyn yn cael ei drafod yn rheolaidd ar lefel Llywodraeth Cymru.
- ix. Cadarnhaodd AL fod gwasanaethau gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn cael eu defnyddio. Mae hefyd yn gobeithio gwneud cysylltiadau â'r Academi Seiber Genedlaethol ym Mhrifysgol Casnewydd sydd â chysylltiadau â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac a allai ddarparu cyfleoedd i'r Bwrdd.
- x. Diolchodd y Cadeirydd i AL a'i dîm am fod yn agored a thryloyw wrth ddelio â'r mater hwn ac am y camau prydlon ac effeithiol a wnaeth fynd i'r afael â'r broblem, sicrhau nad oedd enw da'r sefydliad yn cael ergyd ac, yn bwysicaf oll, nodi dysgu pellach y mae angen rhoi sylw iddo yn y dyfodol. Teimlai fod hynny, mewn amgylchiadau anffafriol, yn dangos cryfderau'r sefydliad.
- xi. O ran yr argymhelliad i'r CCG gynghori'r Cadeirydd ar opsiynau ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth am seibergadernid a systemau gwybodaeth yn rhan o set sgiliau gyffredinol y Bwrdd, teimlai'r Cadeirydd y dylai hynny fod yn benderfyniad gan y Bwrdd oni bai bod y Bwrdd yn penderfynu dirprwyo'r penderfyniad i'r CCG. Roedd yn gwbl briodol i'r CCG ystyried yr opsiynau. Fodd bynnag, dylai'r mater ddod yn ôl i'r Bwrdd yn y pen draw i gael ei ystyried a'i benderfynu.
- xii. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod camau gweithredu tymor byr a thymor canolig a thymor hwy yn deillio o'r sefyllfa hon y mae angen eu hystyried o safbwynt llywodraethu corfforaethol. Yn y tymor byr, mae angen uwchsgilio holl aelodau'r Bwrdd yn eu gwybodaeth am seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth ac mae hyn yn cael sylw wrth gynllunio rhaglen ddatblygu'r Bwrdd. Yn y tymor canolig, mae angen i ni ddod â dealltwriaeth ychwanegol i'r Bwrdd, efallai drwy recriwtio cyfetholydd sy'n eistedd ar y Pwyllgor Archwilio a Risg i gyflwyno'r dealltwriaeth a chyngor arbenigol sydd eu hangen i gyflawni swyddogaeth oruchwylio'r Pwyllgor. Yn y tymor hwy, efallai y bydd angen i ni ystyried adlewyrchu'r gofyniad i gynyddu gwybodaeth am faterion TGCh a seiberddiogelwch yn aelodaeth y Bwrdd.

- xiii. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn trafod y materion hyn gyda'r Prif Swyddog Gweithredol ac eraill ar hyn o bryd ac y bydd yn cyflwyno'r cynigion pan fyddant yn barod. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu seminarau i Brif Swyddogion Gweithredol, Cadeiryddion ac unigolion cyfrifol i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau o ran llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch ac roedd ef, SE ac AL i gyd wedi ymrwymo i fynychu seminarau. Bydd grwpiau cyfnewid gwybodaeth yn cael eu datblygu hefyd fel rhan o'r broses PADR ddiwygiedig ac roedd DB a GQ wedi mynegi diddordeb mewn datblygu mwy o wybodaeth yn y maes hwn.
- xiv. Roedd JK yn cytuno â'r Cadeirydd bod hwn yn fater sy'n gyfrifoldeb i'r Bwrdd ac yn cael ei rannu yn y Bwrdd yn hytrach nag yn CCG.
- xv. Cymeradwyodd y Bwrdd y dylid ychwanegu'r gwaith o oruchwylio seibergadernid at gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac y dylid diwygio ei gylich gorchwyl i adlewyrchu hyn.
- xvi. Cytunwyd hefyd y byddai'r CCG yn cael cais i ddatblygu cynigion yn y tymor byr, canolig a hir i wella gallu'r Bwrdd i ddarparu llywodraethu corfforaethol effeithiol ynghylch llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch ac y dylid trafod hynny mewn diwrnod datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol fel atodiad i'r rhaglen waith cryfhau llywodraethu. **GWEITHREDU**

## 11. Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd Chwarter 4

- i. Rhoddodd KS drosolwg o adroddiad perfformiad diwedd blwyddyn 2020-21 sy'n cydgrynhoi materion a adroddwyd yn ystod y flwyddyn. Dywedodd wrth yr aelodau mai dyma'r tro olaf yn ôl pob tebyg y byddent yn ei weld yn cael ei gyflwyno yn y fformat hwn gan fod y fframwaith adrodd ar gyfer Cynllun Busnes 2021-22 yn cael ei ddiwygio mewn ymateb i adborth.
- ii. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu perfformiad a chyflawniadau yn erbyn y Cynllun Busnes ar gyfer 2020-21. Mae'r Cynllun Busnes wedi ei gwneud yn ofynnol i hyblygrwydd gael ei ddangos drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod, fel sefydliad, wedi bod yn ymateb i anghenion y sector drwy gydol y pandemig. Mae'r adroddiad yn manylu ar nifer o weithgareddau a fydd yn cael eu cario drosodd i Gynllun Busnes 2021-22 lle nad oedd y gwaith wedi gallu symud ymlaen oherwydd yr angen i ymgysylltu â'r sector. Yn ogystal â chraffu ar y perfformiad, gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd ystyried pa uchafbwyntiau yr hoffent eu cynnwys yn y sylwebaeth perfformiad sy'n rhan o'r adroddiad blynyddol statudol a'r cyfrifon. Gofynnodd KS am unrhyw gwestiynau neu sylwadau gan yr aelodau.
- iii. Cyfeiriodd CC at sgysiau yng nghyfarfodydd blaenorol y Bwrdd yn ceisio pennu pam y gall y darlun sy'n cael ei gyfleu gan y mesurau a'r targedau amrywio ychydig weithiau i'r casgliadau cyffredinol o fewn y sylwebaeth perfformiad. Gofynnodd pa mor hyderus y gallai'r Bwrdd fod na fydd y targedau a'r metrigau sy'n cael eu datblygu ar gyfer cynllun 2021-22 yn creu'r un problemau. Dywedodd KS y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn sesiwn ddatblygu nesaf y Bwrdd ar dargedau a

mesurau'r Cynllun Busnes sydd hefyd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Strategol a dangosyddion perfformiad cysylltiedig.

- iv. Ymatebodd CC, gan bwysleisio bod y gwaith o gyflawni'r cynllun busnes presennol eisoes wedi dechrau a bod y Bwrdd, yn gynharach yn y cyfarfod, wedi cytuno fwy neu lai ar y Cynllun Busnes newydd sy'n cynnwys targedau a mesurau ar gyfer y flwyddyn. Felly, roedd yn meddwl tybed sut byddai trafodaethau pellach yn dylanwadu ar y fframwaith perfformiad o fewn y Cynllun Busnes presennol ar gyfer 2021-22. Dywedodd KS nad yw'r mesurau a'r targedau yn y Cynllun Busnes presennol yn cydfynd â'r cynllun strategol ac felly bod angen gwaith i'w cysoni.
- v. Cyfeiriodd SB at ymateb y Bwrdd i themâu a thueddiadau sy'n deillio o wrandawiadau AiY. Mae'r Aelodau'n cael crynodeb o ganlyniadau'r gwrandawiadau hynny fel mater o drefn ac fe'u trafodwyd o bryd i'w gilydd yn y Pwyllgor, ond meddyliodd tybed a oedd hyn yn rhywbeth byddai'r Bwrdd am edrych arno mewn ffordd fwy strwythuredig. Dywedodd SE fod hyn yn cysylltu â thrafodaethau cynharach ar reoleiddio ar gyfer gwella a bod sgwrs eisoes wedi'i chynnal gydag AGC ar sut y gellir defnyddio'r wybodaeth a gesglir gan y ddau sefydliad yn well i geisio gwella ymarfer ac yn y pen draw, lleihau'r potensial i'r materion AiY godi eto.
- vi. Ychwanegodd EB fod y mater o themâu a thueddiadau o wrandawiadau AiY hefyd wedi'i ddwyn i'w sylw gan gydweithwyr sy'n ymarferwyr a theimlai fod hyn yn rhywbeth yr oedd angen ei fonitro a'i ddeall.
- vii. Cefnogodd JK bwynt EB, gan ddweud ar ôl profi diffyg ymgysylltu mewn rôl arall, fod angen i'r Bwrdd gael sicrwydd ynghylch dadansoddi data, y dysgu o hyn a sut roedd y dysgu'n cael ei raedru wedyn i sefydliadau eraill.
- viii. Dywedodd DB y gellid gofyn i AGC ymgysylltu'n rheolaidd â'r Bwrdd i gael y trafodaethau ar ddeallusrwydd meddal. Dywedodd y Cadeirydd fod y sgwrs hon yn digwydd ar lefel Pwyllgor, yn enwedig lle mae AGC yn cyfrannu at y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau. Pe bai'r aelodau'n teimlo bod angen mwy o wybodaeth, gallai Cadeirydd y Pwyllgor ystyried pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol ei rhannu gyda'r Bwrdd llawn.
- ix. Dywedodd DP fod cynnig yng Nghynllun Busnes 2021-22 a fydd yn comisiynu adolygiad o sut y defnyddir y wybodaeth sy'n deillio o weithgarwch rheoleiddiol ac mae Cymru'n arwain ar y gwaith hwn ar draws pedair gwlad y DU. Yn ogystal ag edrych ar yr hyn sydd ei angen ar y sefydliad, bydd hefyd yn edrych ar yr hyn mae ein rhanddeiliaid ei eisiau gennym ni. Mae sgwrs eisoes wedi'i chynnal gyda'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol Annibynnol ar yr hyn y mae angen iddynt ei weld o ddata AiY a bydd canlyniadau'r gwaith ehangach yn dod yn ôl i'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn ôl yr angen.
- x. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cyfraniadau ond nododd fod amser yn brin a bod angen symud ymlaen i weddill yr agenda. Dywedodd fod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem hon wedi canolbwyntio mwy ar y ffordd yr adroddir am berfformiad yn hytrach na manylion y canlyniadau ac amrywiannau a adroddir yn niweddariad y cynllun busnes. Pwysleisiodd hyn yr angen, wrth symud ymlaen, am fframwaith rheoli perfformiad integredig sy'n nodi'n glir pa wybodaeth sydd ei hangen ar bob lefel o'r

sefydliad, h.y., yr hyn sydd ei angen ar y Bwrdd i gyflawni ei rôl oruchwylio a chraffu, yr hyn sydd ei angen ar Bwyllgorau er mwyn craffu ar y manylion a'r hyn sydd ei angen ar swyddogion i'w galluogi i reoli'r busnes a gweithrediadau o ddydd i ddydd.

- xi. Gofynnodd KS i'r Aelodau anfon unrhyw fyfyrddodau pellach ac unrhyw beth y byddent am ei weld o ran ffocws ar gyfer y sylwadau ar berfformiad ar gyfer yr adroddiad blynyddol a chyfrifon ati hi yn uniongyrchol i'w cynnwys yn y fersiwn ddrafft a fydd yn cael ei hystyried yn y lle cyntaf gan y Pwyllgor Archwilio a Risg cyn dod gerbron y Bwrdd. **GWEITHREDU**
- xii. Rhoddodd GR drosolwg o'r cyllid fel ag yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr incwm yn ôl y disgwyl. Roedd tanwariant o £239,000 ar y gyllideb grantiau o ganlyniad i'r nifer is o fwrsariaethau myfyrwyr a ddyrannwyd. Mae hynny yn sgil y cyllid PLOF yn ogystal â rhai lleoliadau'n cael eu gohirio i'r flwyddyn ariannol newydd oherwydd COVID-19; mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y gyllideb ar gyfer 2021-22.
- xiii. Mae tanwariant o £164,000 yn elfen Rheoleiddio'r Gweithlu'r gyllideb, gyda thanwariant o £61,000 yn y gyllideb gwrandawiadau yn sgil gohirio gwrandawiad 5 diwrnod a oedd wedi'i drefnu o fewn y gyllideb.
- xiv. Roedd tanwariant o £116,000 yn y gyllideb Gwella a Datblygu gyda thanwariant o £130,000 yn y gyllideb prosiectau oherwydd penderfyniad yn chwarter 4 i ohirio rhai prosiectau a cherrig milltir tan y flwyddyn ariannol newydd.
- xv. Roedd gorwariant o £119,000 yn y gyllideb cyflogau, oherwydd costau absenoldeb mamolaeth ychwanegol yn ogystal â chyfandaliad i'r cynllun pensiwn yn dilyn cymeradwyaeth gan yr isadran Nawdd sydd wedi arwain at elfen o'r gorwariant.
- xvi. Mae addasiad cyflog gwyliau yn cael ei wneud hefyd, sy'n fwy eleni oherwydd bod staff yn cario nifer ychwanegol o ddiwrnodau ymlaen yn dilyn penderfyniad i fod yn fwy hyblyg ar geisiadau i gario gwyliau ymlaen eleni ac mae wedi arwain at addasiad cyfrifyddu sy'n cyfrannu at orwariant yn y gyllideb cyflogau.
- xvii. Mae Cyllideb y Blynyddoedd Cynnar yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb. Cafwyd gorwariant o £89,000 yn y gyllideb Strategaeth a Chymorth Busnes oherwydd costau gofynion hygyrchedd gwefannau.
- xviii. Yn gyffredinol, ar ddiwedd y flwyddyn, mae tanwariant o £426,000 yn y gyllideb gyda £10,000 yn llai o incwm wedi'i dderbyn na'r hyn a ragwelwyd. Gadawodd hyn danwariant net cyffredinol o £416,000 a oedd o fewn y lwfans cario arian parod ymlaen o 2% gyda balans arian parod o £387,000. Felly, mae'r tanwariant £416,000 wedi'i gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd a fydd yn ariannu prosiectau a lleoliadau a ohiriwyd o 2020-21.
- xix. Diolchodd y Cadeirydd i GR am ei bapur cyllid a hefyd i RJ am ei hadroddiad diwedd blwyddyn ar Adnoddau Dynol a gofynnodd i'r aelodau am unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y naill bapur neu'r llall. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau .
- xx. Cytunodd yr Aelodau eu bod wedi **craffu** ar y cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes 2020-21 a'i **gymeradwyo** ar y cam diwedd blwyddyn.

## 12. Adroddiad Effeithiolrwydd y Bwrdd

- i. Myfyriodd y Cadeirydd ar y trafodaethau a gafwyd yn y tri chyfarfod Pwyllgor ym mis Mawrth mewn perthynas â chanlyniadau eu hadroddiadau effeithiolrwydd. Y consensws cyffredinol oedd er bod y casgliadau'n gadarnhaol ar y cyfan, roedd nifer yr ymatebion a'r diffyg naratif neu adborth y gellid ei weithredu yn awgrymu bod angen edrych eto ar y broses. Yn benodol, barnwyd bod y cwestiynau o bosib yn llai perthnasol nawr na phan gawsant eu datblygu pedair blynedd yn ôl, pan sefydlwyd y sefydliad.
- ii. O ran yr ymarfer lefel Bwrdd, dim ond un ar ddeg o ymatebion a gafwyd o bymtheg posibl, a gallai hyn fod yn arwydd nad yw aelodau'n gweld y broses fel un mor ddiddorol ag y dylai fod o bosib. Roedd y Cadeirydd o'r farn bod yr arwyddion cyffredinol yn ddefnyddiol o ran ei bod yn ymddangos bod pobl yn fodlon ar y cyfan â'r ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithio, ond nid yw'r sylwadau naratif yn rhoi fawr o ddealltwriaeth o pam wnaeth yr aelodau asesu fel y gwnaethant a phrin oedd y cyfleoedd i nodi camau gweithredu ar gyfer gwella yn y dyfodol. O ganlyniad, o'i gymryd gyda thrafodaethau'r Pwyllgor, roedd y Cadeirydd wedi cytuno â'r Prif Swyddog Gweithredol y byddwn yn edrych ar ffyrdd amgen o gynnal yr adolygiadau effeithiolrwydd yn y dyfodol.
- iii. Er bod y cyfleoedd dysgu yn gyfyngedig, tynnodd y Cadeirydd sylw at y prif themâu yn yr ymatebion yn ei farn ef: -
  - roedd rhai aelodau'n awyddus i ddeall mwy am yr hyn a ddisgwyliid ganddynt yn eu rôl fel llysgenhadon i'r sefydliad.
  - teimlai nifer o aelodau fod y cyfarfod atebolrwydd gyda Gweinidogion yn rhy strwythuredig ac y byddai'n croesawu cyfle ar wahân, mwy anffurfiol i gyfnewid safbwyntiau dwy ffordd.
  - roedd llai o foddhad â hyd cyfarfodydd nag agweddau eraill ar drefniadau gweithio'r Bwrdd.
  - bu gostyngiad bach yn nifer yr aelodau a oedd yn fodlon bod eu hanghenion hyfforddi fel aelod yn cael sylw digonol.
  - er bod aelodau wedi codi pryderon o'r blaen am ba mor hawdd oedd Porth y Bwrdd i'w ddefnyddio, ni chafodd hyn ei adlewyrchu yn yr adborth a ddarparwyd.
- iv. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau mewn perthynas â chanfyddiadau arolwg effeithiolrwydd y Bwrdd. Dywedodd JK fod rôl aelodau'r Bwrdd fel llysgenhadon yn un sydd wedi'i chodi'n gyson ers ffurfio'r Bwrdd a gofynnodd sut y byddai hyn yn cael sylw. Dywedodd y Cadeirydd y bydd sesiwn yn cael ei chynnwys fel opsiwn yn rhaglen Datblygu'r Bwrdd ar gyfer 2021-22 a fydd yn cael ei thrafod yn sesiwn ddatblygu mis Mai a bydd y Bwrdd yn gallu penderfynu ar amseriad y sesiwn.
- v. Mewn ymateb i'r adborth a oedd yn dangos awydd am fwy o hyfforddiant, bydd rhaglen Datblygu'r Bwrdd hefyd yn cynnwys cydbwysedd tecach rhwng eitemau busnes, eitemau gwybodaeth a mewnbynnau hyfforddi. Roedd nifer o themâu posibl ar gyfer hyfforddiant wedi deillio o'r cylch diweddar o drafodaethau PADR un-i-un, gan gynnwys llywodraethu gwybodaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ariannol a fydd yn cael eu cynnwys yn yr amserlen i'w hystyried.

- vi. Mewn perthynas â'r awydd am sgwrs lai ffurfiol gyda Gweinidogion, dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn awgrym a oedd wedi codi nifer o weithiau yn ystod y trafodaethau PADR un-i-un hefyd. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol wedi trafod hyn ac wedi cytuno y byddent yn codi'r mater drwy eu cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru ar ôl ffurfio'r llywodraeth newydd.
- vii. O ran hyd cyfarfodydd, cydnabu'r Cadeirydd y farn bod cyfarfodydd yn rhy hir ond cyfeiriodd at y dadansoddiad diweddar sy'n dangos bod llai o amser yn cael ei dreulio mewn cyfarfodydd ers dechrau cynnal cyfarfodydd o bell. Fodd bynnag, pe bai Aelodau'n credu bod ffyrdd o leihau hyd cyfarfodydd ymhellach, byddai'n falch o'u hystyried.
- viii. Dywedodd DB fod gormod o bethau'n cael eu cynnwys ar agenda sy'n gofyn am drafodaethau manwl weithiau. Dywedodd y Cadeirydd fod rhai sefydliadau yn cyflwyno 'eitemau caniatâd' ar ddechrau cyfarfodydd sy'n eitemau nad ydynt yn ddadleuol neu er gwybodaeth yn unig ac sy'n cael eu delio â nhw'n weddol gyflym, gan ganiatáu mwy o amser ar gyfer materion arwyddocaol. Os oedd awydd am hyn, roedd yn rhywbeth y gellid ei ystyried.
- ix. Mewn perthynas â'r adborth bod aelodau'n fodlon ar y cyfan â phorth y Bwrdd, dywedodd y Cadeirydd fod Bev Moore yn adolygu'r porth ar hyn o bryd ac y dylid anfon unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau ati hi'n uniongyrchol.
- x. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach a chytunodd yr aelodau fod y Bwrdd yn ystyried ac yn trafod canlyniadau'r adroddiad.
- xi. Ychwanegodd y Cadeirydd os oedd yna faterion yr oedd cydweithwyr am eu codi ond nad oeddent yn teimlo y gallent wneud hynny mewn lleoliad cyhoeddus, roedd croeso iddynt gysylltu ag ef y tu allan i'r cyfarfod.

### **13. Effeithiolrwydd cyfarfodydd**

- i. Gofynnwyd i'r Aelodau gyfrannu eu barn at Jamboard er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y cyfarfod. Gofynnwyd tri chwestiwn, fel a ganlyn: -
  - (i) oedd un peth a aeth yn arbennig o dda yn ystod y cyfarfod heddiw?
  - (ii) oedd un peth y gallem ni fod wedi'i wneud yn wahanol neu'n well yn eich barn chi?
  - (iii) oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn cael mwy o sylw nad oedd yn gam gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod?
- ii. Dangoswyd yr ymatebion ar y sgrin wrth iddynt gael eu cyflwyno ac o ystyried lefel y manylder, cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r rhain CCG gymryd y nodiadau a'u trafod i nodi unrhyw gamau a oedd yn angenrheidiol o ganlyniad. Ymrwymodd i sicrhau bod adborth yn cael ei ddarparu drwy'r Porth mewn perthynas ag unrhyw gamau a fyddai'n codi.

- iii. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach ac felly diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod a chyhoeddodd fod y cyfarfod wedi dod i ben.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

**Dydd Iau 15 Gorffennaf 2021.**

**Camau Gweithredu**

| <b>Rhif y cam gweithredu</b> | <b>Eitem</b>  | <b>Gweithredu</b>  | <b>Pwy</b>                            |
|------------------------------|---|--|---------------------------------------|
| 01/21/SCW                    | Eitem 4 - Cofnod gweithredu a materion yn codi  | Y camau gweithredu i gael cyfeirnod wrth symud ymlaen i helpu i adnabod camau gweithredu yn y dyfodol  | Llinos Bradbury                       |
| 02/21/SCW                    | Eitem 6 - Gosod y cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr | Ysgrifennu at y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w hatgoffa am y porth data a'r cymorth sydd ar gael gan Gofal Cymdeithasol Cymru  | Sarah McCarty                         |
| 03/21/SCW                    | Eitem 6 - Gosod y cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr | Trafodaeth bellach am waith ymgysylltu Gofal Cymdeithasol Cymru a sut i ymgysylltu'n well â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac archwilio manteision partneriaeth gryfach. | Mick Giannasi a Sue Evans             |
| 04/21/SCW                    | Eitem 7 - Cynllun Busnes 2021-22  | Archwilio manteision posibl mentora o chwith.  | Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol |
| 05/21/SCW                    | Eitem 10 - Diweddariad ar y System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth                            | CCG i ddatblygu cynigion yn y tymor byr, canolig a hir i drafod ymhellach ar ddiwrnod datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol fel atodiad i'r rhaglen                                  | Aelodau Grŵp Cydlynu'r Cadeiryddion   |



|           |  |  |                      |
|-----------|--|--|----------------------|
|           |  | waith cryfhau llywodraethu.  |                      |
| 06/21/SCW | Eitem 11 - Cynllun Busnes:<br>Adroddiad cynnydd Chwarter 4 | Yr Aelodau i anfon unrhyw fyfyrddodau a ffocws ar gyfer y sylwadau ar berfformiad ar gyfer yr adroddiad blynyddol a chyfrifon at Kate Salter yn uniongyrchol i'w cynnwys yn y fersiwn ddrafft a fydd yn cael ei hystyried yn y lle cyntaf gan y Pwyllgor Archwilio a Risg cyn y Bwrdd. | Holl aelodau'r Bwrdd |

## Gweithrediadau cyfarfodydd Bwrdd Gorfal Cymdeithasol Cymru

### Log gweithredu 2021-22

| Rhif gweithred | Dyddiad cyfarfod | Eitem   | Gweithred   | Gweithred gan   | Dyddiad targed | Canlyniad / diweddariad   | Statws cyfredol | Dyddiad cwblhau |
|----------------|------------------|---|---|-----------------|----------------|---|-----------------|-----------------|
| 01/21/SCW      | 29.04.21         | Eitem 4 - Log gweithredu a materion yn codi   | Gweithredoedd i gael cyfeirnod wrth symud ymlaen i helpu i nodi gweithredoedd yn y dyfodol              | Llinos Bradbury | Gorffennaf     | Roedd y cyfeirnod wedi'i gynnwys wrth symud ymlaen  | Caewyd          | Gorffennaf 2021 |
| 02/21/SCW      | 29.04.21         | Eitem 6 - Gosod cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr | Ysgrifennu at RPBs i'w hatgoffa o'r porth data a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Gofal Cymdeithasol Cymru | Sarah McCarty   | Gorffennaf     | Rydym yn gallu cymryd agwedd fwy rhagweithiol ac rydym nawr yn archwilio gyda phartneriaid i gyflwyno gweithdai thematig ar y pynciau yn yr Asesiadau Anghenion Poblogaeth ar gyfer cynllunwyr rhanbarthol ac unigolion eraill sydd â diddordeb. Byddwn hefyd yn defnyddio'r gweithdai hyn fel rhan o'n gwaith gyda Grant Thornton ar ailddatblygu'r porth data. Mae hyn yn ein | Caewyd          | Gorffennaf 2021 |

|           |          |   |   |                           |              |  |        |  |
|-----------|----------|---|---|---------------------------|--------------|--|--------|--|
|           |          |   |   |                           |              | galluogi i ddarparu rhywfaint o gefnogaeth ragweithiol ar y data a'r ymchwil sydd ar gael, wrth lywio'r ffordd orau i'r porth ddiwallu anghenion y sector yn y dyfodol. Mae Sarah hefyd yn cynnal gweithdy yn nigwyddiad cynllunio haf GIG Cymru lle byddwn hefyd yn rhannu'r gefnogaeth sydd ar gael. |        |  |
| 03/21/SCW | 29.04.21 | Eitem 6 - Gosod cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr | Trafod ymhellach gwaith ymgysylltu Gofal Cymdeithasol Cymru a sut i ymgysylltu'n well â'r RPBs ac archwilio buddion partneriaeth gryfach. | Mick Giannasi & Sue Evans | Rhagfyr 2021 | Cytunwyd i ddefnyddio'r Cynllun Strategol fel canolbwynt ar gyfer deialog RPB yn 21/22.<br><br>Efallai y bydd trafodaeth bellach pan welwn ymateb Llywodraeth Cymru o ymgynghoriad y Papur Gwyn.   | Agored |  |
| 04/21/SCW | 29.04.21 | Eitem 7 – Cynllun Busnes 2021-22  | Archwiliwch fanteision posibl mentora.  | Mick Giannasi & Sue Evans | Gorffennaf   | Sesiwn wybodaeth wedi'i chynnal gyda Bwrdd Iechyd Hywel  | Agored |  |

|           |          |   |   |                                     |                     |  |        |                   |
|-----------|----------|---|---|-------------------------------------|---------------------|--|--------|-------------------|
|           |          |   |   |                                     |                     | Dda ar 21 Mehefin, trafodaethau i'w cynnal ar y potensial i'w ddefnyddio o fewn Gofal Cymdeithasol Cymru |        |                   |
| 05/21/SCW | 29.04.21 | Eitem 10 - Diweddariad System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth | GCC i ddatblygu cynigion yn y tymor byr, canolig a hir i drafod ymhellach mewn diwrnod datblygu Bwrdd yn y dyfodol fel ychwanegiad at y rhaglen waith cryfhau llywodraethu.   | Aelodau'r Grŵp Cydlynu Cadeiryddion | Gorffennaf          | I'w drafod yng nghyfarfod 29 CCG   | Agored |                   |
| 06/21/SCW | 29.04.21 | Eitem 11 - Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd Chwarter 4   | Eitem 11 - Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd chwarter 4 Aelodau i anfon unrhyw fyfyrddodau a ffocws ar gyfer y sylwebaeth berfformiad ar gyfer yr adroddiad blynyddol a chyfrifon yn uniongyrchol at Kate Salter i'w gynnwys yn y | Aelodau Bwrdd                       | Cyn gynted a phosib | Trafodwyd adroddiad blynyddol a chyfrifon yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 7 Gorffennaf                 | Caewyd | 7 Gorffennaf 2021 |

|  |          |  |  |   |   |   |        |                 |
|--|----------|--|--|---|---|---|--------|-----------------|
|  |          |  | fersiwn ddrafft i'w hystyried i ddechrau gan y Pwyllgor Archwilio a Risg gerbron y Bwrdd.  |   |   |   |        |                 |
|  | 22.10.20 | Eitem 8 - Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019-20 | Trafod mentrau recriwtio BAME ymhellach  | Abu Askira & Rhianon Jones & Emma Britton         | Mawrth 2021   | Wedi cyfarfod.  | Caewyd | Mai 2021        |
|  | 22.10.20 | Eitem 8 - Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019-20 | Diweddariad ar y cynnydd o ran cwblhau data monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth   | Rhianon Jones                                     | Erbyn Mawrth 2021 yn barod ar gyfer adrodd yn Ebrill 2021 | Diweddariad wedi'i gynnwys ym mhapur Archwilio Cyflog Cyfartal mis Gorffennaf.  | Caewyd | Gorffennaf 2021 |
|  | 22.10.20 | Eitem 9 - Archwiliad Cyflog Cyfartal 2019-20       | Rhannu methodolegau a ddefnyddir i wneud i bobl deimlo'n fwy diogel wrth ddatgan eu nodweddion   | Damian Bridgeman a Rhianon Jones                  | Mawrth 2021   | Cyfarfod ar 13 Gorffennaf.  | Caewyd | Gorffennaf 2021 |
|  | 30.04.20 | Item 8 – Materion rheoleiddio                      | Gweithio gyda'r tîm FtP i ddatblygu meini prawf ar gyfer pryd gellid defnyddio mwy ar adran 160 o'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu (RISCA), | Hywel Dafydd, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoleiddio | 16.07.20  | Rydym yn cynnal trafodaethau â chyfreithwyr Llywodraeth Cymru i weithredu adran 160. Unwaith y cyflawnir hyn, byddwn yn | Agored |                 |

|  |  |  |   |  |  |   |  |  |
|--|--|--|---|--|--|---|--|--|
|  |  |  | gan ei bod yn rhoi'r pŵer i fynnu gwybodaeth gan bersonau neu gyrff sy'n ymwneud ag achosion FtP. |  |  | gosod maen prawf. Mae gwaith Llywodraeth Cymru ar hyn wedi stopio oherwydd Covid-19 ond rydym mewn cysylltiad rheolaidd ac yn gobeithio gwneud cynnydd yn fuan. |  |  |
|--|--|--|---|--|--|---|--|--|



|  |  |                                       |   |                                     |                                     |
|--|--|---------------------------------------|---|-------------------------------------|-------------------------------------|
| <b>CYFARFOD / MEETING</b>  | <b>Cyfarfod Bwrdd</b>  |                                       |   |                                     |                                     |
|  | <b>PREIFAT / PRIVATE</b>   |                                       | <b>CYHOEDDUS / PUBLIC</b>                   |                                     |                                     |
|  | <input type="checkbox"/>   |                                       | <input checked="" type="checkbox"/>         |                                     |                                     |
| <b>DYDDIAD / DATE</b>  | 15.07.21   |                                       |   |                                     |                                     |
| <b>EITEM AGENDA / AGENDA ITEM</b>  | 7  |                                       |   |                                     |                                     |
| <b>TEITL / TITLE / SCW/21/19</b>   | <b>Adroddiad Blynyddol Drafft a Chyfrifon 2020-21, Adroddiad Archwilio Cyfrifon</b>  |                                       |   |                                     |                                     |
| <b>AWDUR / AUTHOR</b>  | Geraint Rowlands, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid a TG  |                                       |   |                                     |                                     |
| <b>CYFRANIADAU GAN/ CONTRIBUTIONS FROM:</b>  | Archwilio Cymru  |                                       |   |                                     |                                     |
| <b>PAPURAU CEFNOGOL / SUPPORTING PAPERS</b>  | Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2020-21<br>Atodiad 2 - Adroddiad Archwilio Cyfrifon   |                                       |   |                                     |                                     |
| <b>GWEITHGAREDD CYNLLUN BUSNES / BUSINESS PLAN ACTIVITY</b>  | Thema flaenoriaeth 4: ar gyfer gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru a sefydliad effeithiol  |                                       |   |                                     |                                     |
| <b>GWEITHRED / ACTION REQUIRED</b>   | <b>CYMERADWYAETH / APPROVAL</b>  | <b>DARPARU LLYW / PROVIDE A STEER</b> | <b>DARPARU SICRWYDD / PROVIDE ASSURANCE</b> | <b>TRAFODAETH / DISCUSSION</b>      | <b>CRAFFU / SCRUTINISE</b>          |
|  | <input checked="" type="checkbox"/>  | <input type="checkbox"/>              | <input type="checkbox"/>                    | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> |
| <b>ARGYMHELLIAD / RECOMMENDATION</b>   | Gwahoddir y Bwrdd i <b>graffu</b> a <b>chymeradwyo'r</b> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft a chraffu a <b>chymeradwyo'r</b> Adroddiad Archwilio Cyfrifon.   |                                       |   |                                     |                                     |
| <b>PRIF BWYNTIAU; MATERION ALLWEDDOL I DYNNU SYLW ATYNT; CWESTIYNAU I'W YSTYRIED</b><br><br><b>MAIN POINTS; KEY ISSUES TO DRAW TO ATTENTION;</b> | Mae'r Adroddiad Blynyddol Drafft a'r Cyfrifon ymhellach i archwilio allanol yn ymgorffori unrhyw gywiriadau yr oedd yn ofynnol eu gwneud i'r cyfrifon ac maent wedi'u hargymell i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.<br><br>Mae'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon yn amlinellu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamed. Ni chodwyd unrhyw argymhellion yn dilyn y gwaith archwilio. |                                       |   |                                     |                                     |

|   |  |
|---|--|
| <b>QUESTIONS TO CONSIDER</b>                          |  |
| <b>ASESIADAU<br/>EFFAITH / IMPACT<br/>ASSESSMENTS</b> |  |



## **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 a'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon**

### **1. Cyd-destun**

- 1.1 Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Drafft yn Atodiad 1. Ymhellach i archwiliad allanol mae'r cyfrifon hyn yn ymgorffori unrhyw gywiriadau yr oedd yn ofynnol eu gwneud i'r Cyfrifon.
- 1.2 Mae'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon yn nodi mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol. Ni chodwyd unrhyw argymhellion yn codi o'r gwaith archwilio.
- 1.3 Yn y Pwyllgor Archwilio a Risg, trosglwyddodd yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon drafft fod un maes o waith archwilio ar ôl ar y pryd, sef derbyn cadarnhad gan archwilwyr allanol cronfa bensiwn RCT ynghylch datgelu pensiwn yn ein datganiadau ariannol Archwiliad Cymru yn y cyfarfod roeddent wedi gallu cadarnhau bod y sicrwydd archwilio hwn bellach wedi'i ddarparu ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon terfynol.
- 1.4 Ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd, bwriedir i'r Cyfrifon gael eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 12 Gorffennaf ac yna i'w llofnodi gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 23 Gorffennaf. Rhagwelir y bydd y Cyfrifon yn cael eu gosod gerbron y Senedd ar yr un diwrnod ag y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn eu llofnodi.

### **2. Goblygiadau adnoddau**

- 2.1 Roedd adnoddau ar gyfer y gost archwilio allanol o £20,741 o fewn y gyllideb Llywodraethu.

### **3. Ystyriaethau risg**

- 3.1 Byddai risg i'n henw da pe bai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi barn archwilio gymwysedig.

### **4. Ymgysylltu**

- 4.1 Roedd yr archwiliad allanol yn cynnwys ymgysylltu â'r Tîm Cyllid ond yn bennaf y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid a TG ac aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol.

### **5. Effaith**

- 5.1 Mae'r Archwiliad Allanol yn darparu rôl bwysig wrth ddangos ein bod yn sefydliad tryloyw ac yn atebol am ein penderfyniadau.

# Annual Report and Accounts 2020 – 2021

## **Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016**

Annual Report and Accounts of Social Care Wales prepared pursuant to Schedule 2, Part 6 Paragraph 16(1-3) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016, for the year ended 31 March 2021 together with the Report of the Auditor General for Wales thereon and laid before Senedd Cymru pursuant to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act Schedule 2, Part 6 Paragraph 16(4)

## Contact details

Social Care Wales  
South Gate House  
Wood Street  
Cardiff CF10 1EW

Tel: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

Email: [info@socialcare.wales](mailto:info@socialcare.wales)

[socialcare.wales](http://socialcare.wales)

Twitter: [@SocialCareWales](https://twitter.com/SocialCareWales)

© 2021 Social Care Wales

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system or transmitted in any form or by any means without the prior written permission of Social Care Wales. Enquiries for reproduction outside the scope expressly permitted by law should be sent to the Chief Executive of Social Care Wales at the address given above.

# Contents

|  |    |
|--|----|
| <b>Contact details</b> .....   | 2  |
| <b>Performance report</b> .....  | 4  |
| <b>Overview</b> .....  | 4  |
| Statement from the Accounting Officer.....   | 4  |
| Role of Social Care Wales – Who we are.....  | 7  |
| Our vision and strategic objectives.....   | 7  |
| Key issues and risks we face.....  | 8  |
| <b>Performance analysis</b> .....  | 9  |
| <b>Accountability report</b> .....   | 19 |
| <b>Corporate governance report</b> .....   | 19 |
| Directors report.....  | 19 |
| Statement of the Responsibilities of Social Care Wales and the Chief Executive.....                              | 21 |
| Governance statement.....  | 22 |
| <b>Remuneration and staff report</b> .....   | 37 |
| Remuneration report.....   | 37 |
| Staff report.....  | 41 |
| <b>Accountability and audit</b> .....  | 45 |
| <b>The Certificate and independent auditor’s report of the Auditor General<br/>for Wales to the Senedd</b> ..... | 46 |
| <b>Financial statements</b> .....  | 50 |
| Statement of comprehensive net expenditure.....  | 50 |
| Statement of financial position.....   | 51 |
| Statement of cash flows.....   | 52 |
| Statement of changes in taxpayers’ equity.....   | 53 |
| Notes to the Accounts for the year ended 31 March 2020.....  | 54 |

## Performance report

### Overview

#### Statement from the Accounting Officer

This represents the fourth Annual Report and Accounts that have been prepared by Social Care Wales since its inception in 2017. This year, as all previous years, the organisation can be pleased to have met its statutory obligations in full and to deliver meaningful support for the social care and early years sectors and those who use their services.

This, of course, has been achieved during Covid; the most significant disruption to our lives for a generation. For social care and early years, the challenges of the past year have been immense. The response of those on the front-line of services has been incredible, and I want to record my thanks and gratitude to them.

I am also very proud of the way Social Care Wales has responded to the emergency - adapting and engaging with the sector throughout. I believe this report demonstrates that we have worked as part of a cohesive sector response, strengthening our partnerships across Wales, and using our resources to support the continued delivery of effective services throughout.

We have continued, despite the challenges, to embed the framework to transform care and support in Wales, as set out in the Social Services and Well-being (Wales) and Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Acts. We have also continued to work with others to develop and plan the future development of the social care and early years workforce, through "A Healthier Wales" and the Welsh Government's "10-year Childcare, Play and Early Years" workforce plan whilst also building on national partnerships across Wales as we recover from the pandemic.

Social care workers help people live the lives they want, supporting people to develop, remain active and independent, stay safe and well connected to their community and wider networks. They do this alongside family, friends, volunteers and other public services. Early years workers help give our children a great start in life and provide valuable support for parents.

The Covid pandemic has truly demonstrated how valuable care workers are, as key workers, to our society. We want to build on this recognition leading on investment in the workforce, to ensure a sustainable way forward. We see this as essential if we are to meet the needs of our communities where the impact of poverty, poor health and an ageing society bring increased demands for good quality care and support.

In response to the pandemic, at the start of the financial year, we re-aligned our Business Plan to take into account how we intended to:

- support the social care and early years sectors in responding to Covid
- adapt our business-as-usual activities to support the sustainability of the workforce (including how we will adapt our approaches to support the current environment)
- support the recovery of the sectors from Covid.

The speed, magnitude and challenge of the pandemic on the sector is not something we had experienced before. From the start we recognised the pressing need to respond swiftly and flexibly in our approach to supporting the sector and our own staff, to provide them with the assistance they need. Some of the key initiatives we have delivered, as a response to Covid, are set out below:

### **Supporting and maintaining the workforce**

- raising the profile of the workforce
- supporting workforce wellbeing
- developing digital learning and peer support networks
- supporting and promoting the sector as a career
- developing a jobs portal

### **Enabling continuing education for social care students**

- making temporary adjustments to our Regulatory requirements
- re-focusing financial support for training and development

### **Providing recognition and support to all who were providing care**

- producing a care worker card

### **Providing expert knowledge and best practice for the sector**

- learning from Covid and sharing practice on 'What made a difference?'
- developing Covid research priorities
- developing one stop shop of curated expert guidance on Covid

### **Providing ongoing regulation and development activities**

- developing, adapting and maintaining business operations during Covid and capturing learning to inform our future operations.

## Our approach for 2021-22

Due to the current landscape and the constantly changing situation regarding Covid, we have set out an ambitious programme of work for delivery in 2021-22. This is based on our Remit Letter's strategic objectives and the Grant-in-Aid funding which was received on 25 March 2021 from the Deputy Minister for Health and Social Services.

Our focus for delivery during 2021-22 will be in three areas:

1. Maintaining and adapting our core activities in light of Covid
2. Supporting the recovery of the social care and early years sector
3. Supporting the sustainability of the sector

We will focus on our ambitions to:

- empower the workforce to achieve the best person centred care
- enhance the provision of services through managers, leaders and owners
- enable strategic leaders with evidence and skills to improve planning, service development and quality
- ensure continuous improvement in how we do our work, to be an effective and efficient Welsh public service leadership organisation.

To find out more details on how we will deliver this work visit [our website](#) and [our Business Plan 2021-22](#).

### Sue Evans

Chief Executive and Accounting Officer

Date: 21 July 2021

## Role of Social Care Wales – Who we are



## Our vision and strategic objectives

**Our vision**

We want every person who needs support to live the life that matters to them

**Our purpose**

Building confidence in the workforce and leading and supporting improvement in social care



## Our aims

Our three strategic aims define what we do. These aims will result in:

- people having confidence in the social care workforce, including the early years workforce, and the effectiveness of Social Care Wales
- improved well-being outcomes for children and adults who rely on care and support, their families and carers
- a high-quality, sufficient and skilled workforce.

## Key issues and risks we face

Information about our risk management and the main risks we face is provided in the Governance Statement on page 22.

The factors we think will have the greatest influence over the way we work and how we achieve our vision over the next five years are:

- the impact of Covid directly and indirectly on the social care and early years sector in supporting people and children
- remaining in a period of financial constraint for public services
- the ambitious policy landscape.

## Performance analysis

Our annual Business Plan for 2020-21 sets out our strategic objectives, along with our high-level activities and achievement measures. Throughout the year we provide quarterly reports about the progress we have made against our strategic objectives to our Executive Management Team, and these are scrutinised by our Board and the Welsh Government.

Whilst many of our existing activities and our response to Covid were delivered effectively and at pace in year, we took a decision to slow down some activities and carry them forward into our business delivery for 2021-22 to ensure that the outcomes are truly co-produced with the sector. This was in recognition that the pandemic was having a significant, continued impact on the ability within the sector to participate in the level of engagement required.

## Providing public confidence

### Registration

Registration is part of our ongoing commitment to continuously develop the social care workforce and raise the status of workers. We recognise the need to make sure we have a sufficient workforce that is ready to meet new challenges, with the right skills and confidence to practise.

With the increased size of the Register, we will continue to identify ways in which we can better interact with registered people, helping them understand the expectations and standards set by the Code of Professional Practice by supporting their learning and development.

**35,802** people were on our Register (as of March 2021)

**1,497** people left the Register (during 2020-21)

To relieve pressure on the sector we made a number of changes to how regulate the workforce in light of Covid. Some examples include:

- **Social Care Workers have up to 12 months from their start date to register with us (temporarily changed from 6 months):** This allowed workers to focus on the response to the pandemic, rather than completing registration within the normal period. Workers remained subject to the code of professional practice.
- **Temporary Register for Social Work:** We invited social workers who had left the register in the past three years to re-join a new, temporary register so they could be quickly brought into service if required by employers.
- **Approval requirements for Social Work qualifying training in the light of the Covid pandemic:** The pandemic meant practice placements for student social workers were often unavoidably curtailed. We worked with Higher Education Institutions (HEIs) to find routes for students who had demonstrated the required progress and competence to qualify.

## Fitness to practise

### Scheduling and holding hearings during Covid

Throughout 2020-21 all our panel hearings, Interim Suspension Orders (ISO), ISO reviews, Registration Appeals and Fitness to Practise Hearings were delivered remotely.

**346** (1% of Register) registered persons about whom we received allegations that called into question their fitness to practise and suitability to remain on the Register

**162** (47%) of referrals related to registered persons who were subject to disciplinary processes

**29** final hearings were held

**16** people were removed from the Register

Of those removed, their roles were:

**56%** (9) - residential child care workers

**6%** (1) - adult care home managers

**6%** (1) - social workers

**19%** (3) - domiciliary care managers

**13%** (2) - domiciliary care workers.

### Promote recognition of the workforce

The social care worker card and early years and child care worker card were produced at the start of the pandemic (launched in April 2020) to recognise the key role workers have in supporting people in every community in Wales. The card provided workers with useful benefits such as preferential shopping times, priority access to certain retailers and additional on-line resources and programmes to support wellbeing. Over 30,000 workers have been issued a card to date. Throughout the year we have continued to review and update the benefits attached to the card and maintain its prominence with retailers.

A new version of the digital card was launched in April 2021 (as the original card expired at the end of April 2021). We applied learning to our approach based on feedback from existing card holders. We considered additional future benefits that can be attached to the card along with how the card can be branded and designed for the care workforce in Wales. This single approach covers both social care and early years and child care.

## Support workforce wellbeing

In December 2020 the Employee Assistance Programme for social care workers in the private and voluntary sectors in Wales was launched. The Welsh Government is supporting the scheme, with funding of £150,000 which we procured and is being managed by Social Care Wales. The scheme is available to around 55,000 social care workers, who may not have had access to such a scheme, to give greater support to their well-being. The scheme recognises the personal impact Covid has had on many workers and will provide more consistent availability of support across the sector. We ran a series of webinars to over 120 attendees. As part of the launch of the scheme a webinar for managers attracted over 200 participants.

This scheme builds on the well-being support available through our website, where the Covid and well-being pages has been viewed the most since the pandemic started.

In October 2020 a second ruling in the Lloyds bank case clarified that compensation would be required to members who transferred benefits out since May 1990. The Government has not yet acknowledged a liability or indicated an approach to rectifying this. Therefore no allowance has been made for any potential liability.

### Goodwin ruling

In June 2020 an Employment Tribunal ruled, in relation to the Teachers Pension Scheme, that provisions for survivor's benefits of a female member in an opposite sex marriage are less favourable than for a female in a same sex marriage or civil partnership, and that treatment amounts to direct discrimination on grounds of sexual orientation. The chief secretary to the Treasury announced in a written ministerial statement on 20 July 2020 that he believed that changes would be required to other public service pension schemes with similar arrangements. These changes are yet to be reflected in the LGPS regulations so no allowance has been made in the calculations.

The Employer's regular contributions to the Fund for the accounting period ending 31 March 2022 are estimated to £1.33m. The date of the last full actuarial valuation of Social Care Wales LGPS funded benefits was 31 March 2019 and the duration of liabilities is 26.3 years.

| Key assumptions                   | 31 March 2021<br>(% pa) | 31 March 2020<br>(% pa) | 31 March 2019<br>(% pa) |
|-----------------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|
| Discount rate                     | 2.1                     | 2.3                     | 2.5                     |
| CPI inflation                     | 2.6                     | 1.8                     | 2.1                     |
| Pension increases                 | 2.6                     | 1.8                     | 2.1                     |
| Pension accounts revaluation rate | 2.6                     | 1.8                     | 2.1                     |
| Salary increases                  | 3.9                     | 3.1                     | 3.4                     |

### Mortality assumption

The mortality assumptions are based on actual mortality experience of members within the Fund based on analysis carried out as part of the 2019 valuation and allow for expected future mortality improvements. Sample life expectancies at age 65 resulting from these mortality assumptions are shown below.

| Assumed life expectancy at age 65           | 31 March 2021 | 31 March 2020 |
|---|---------------|---------------|
| <b>Males</b>                                |               |               |
| Pensioner member aged 65 at accounting date | 21.8          | 21.7          |
| Active member aged 45 at accounting date    | 22.8          | 22.7          |
| <b>Females</b>                              |               |               |
| Pensioner member aged 65 at accounting date | 24.1          | 24.0          |
| Active member aged 45 at accounting date    | 25.6          | 25.5          |

| Asset allocation | Value at 31 March 2021 |             |               | Value at 31 March 2020 |
|------------------|------------------------|-------------|---------------|------------------------|
|                  | Quoted                 | Unquoted    | Total         |                        |
| Equities         | 72.5%                  | 0.0%        | 72.5%         | 63.7%                  |
| Property         | 6.3%                   | 0.0%        | 6.3%          | 8.6%                   |
| Government bonds | 8.3%                   | 0.0%        | 8.3%          | 13.8%                  |
| Corporate bonds  | 12.3%                  | 0.0%        | 12.3%         | 13.0%                  |
| Cash             | 0.6%                   | 0.0%        | 0.6%          | 0.9%                   |
| Other            | 0.0%                   | 0.0%        | 0.0%          | 0.0%                   |
| <b>Total</b>     | <b>100.0%</b>          | <b>0.0%</b> | <b>100.0%</b> | <b>100.0%</b>          |

| Reconciliation of funded status to the Statement of financial position | Value at 31 March 2021 (£M) | Value at 31 March 2020 (£M) |
|--|-----------------------------|-----------------------------|
| Fair value of assets   | 30.65                       | 21.71                       |
| Present value of funded defined benefit obligation                     | 33.0                        | 23.68                       |
| <b>Funded status</b>   | <b>(2.35)</b>               | <b>(1.97)</b>               |
| Unrecognised asset   | 0.00                        | 0.00                        |
| <b>(Liability) recognised on the SOFP</b>                              | <b>(2.35)</b>               | <b>(1.97)</b>               |

The split of the liabilities obligation at the last valuation date between the various categories of members was as follows:

|                     |     |
|---------------------|-----|
| Active members      | 56% |
| Deferred pensioners | 18% |
| Pensioners          | 26% |

| Amounts recognised in comprehensive net expenditure                             | Year ending 31 March 2021 (£M) | Year ending 31 March 2020 (£M) |
|---|--------------------------------|--------------------------------|
| <b>Operating cost</b>   |                                |                                |
| Current service cost <sup>(1)</sup>   | 1.39                           | 1.32                           |
| Past service cost (incl. curtailments)  | 0.00                           | 0.27                           |
| Settlement cost   | 0.00                           | 0.00                           |
| <b>Financing cost</b>   |                                |                                |
| Interest on net defined benefit liability/(asset)                               | 0.03                           | (0.03)                         |
| <b>Pension cost recognised in net expenditure</b>                               | <b>1.42</b>                    | <b>1.56</b>                    |
| <b>Remeasurements in other comprehensive expenditure</b>                        |                                |                                |
| Return on plan assets (in excess of) that recognised in net interest            | (7.05)                         | 0.86                           |
| Actuarial (gains)/losses due to change in financial assumptions                 | 7.60                           | (0.60)                         |
| Actuarial (gains)/losses due to change in demographic assumptions               | -                              | (0.33)                         |
| Actuarial (gains)/losses due to liability experience                            | (0.21)                         | 2.25                           |
| Adjustment in respect of paragraph 64   | 0.00                           | 0.00                           |
| <b>Total amount recognised in other comprehensive expenditure</b>               | <b>0.34</b>                    | <b>2.18</b>                    |
| <b>Total amount recognised in total comprehensive expenditure</b>               | <b>1.76</b>                    | <b>3.74</b>                    |
| (1) Allowance for administration expenses included in current service cost (£M) | 0.02                           | 0.02                           |

| <b>Changes to the present value of the defined benefit obligation</b> | <b>Year ending<br/>31 March 2021<br/>(£M)</b> | <b>Year ending<br/>31 March 2020<br/>(£M)</b> |
|---|---|---|
| <b>Opening defined benefit obligation</b>                             | <b>23.68</b>                                  | <b>20.51</b>                                  |
| Current service cost  | 1.39  | 1.32  |
| Interest expense on defined benefit obligation                        | 0.54  | 0.51  |
| Contributions by participants   | 0.30  | 0.27  |
| Actuarial (gains)/losses due to changes in financial assumptions      | 7.60  | (0.60)  |
| Actuarial (gains)/losses due to changes in demographic assumptions    | -   | (0.33)  |
| Actuarial (gains)/losses due to liability experience                  | (0.21)  | 2.25  |
| Net benefits paid out   | (0.30)  | (0.52)  |
| Past service cost (incl. curtailments)                                | 0.00  | 0.27  |
| Net increase in liabilities from disposals/<br>acquisitions           | 0.00  | 0.00  |
| Settlements   | 0.00  | 0.00  |
| <b>Closing defined benefit obligation</b>                             | <b>33.0</b>                                   | <b>23.68</b>                                  |

| <b>Changes to the fair value of assets during the year</b> | <b>Year ending<br/>31 March 2021<br/>(£M)</b> | <b>Year ending<br/>31 March 2020<br/>(£M)</b> |
|--|---|---|
| <b>Opening fair value of assets</b>                        | <b>21.71</b>                                  | <b>21.00</b>                                  |
| Interest income on assets                                  | 0.51  | 0.54  |
| Remeasurement gains(losses) on assets                      | 7.05  | (0.86)  |
| Contributions by the employer                              | 1.38  | 1.28  |
| Contributions by the participants                          | 0.30  | 0.27  |
| Net benefits paid out                                      | (0.30)  | (0.52)  |
| Net increase in assets from disposals & acquisitions       | 0.00  | 0.00  |
| Settlements  | 0.00  | 0.00  |
| <b>Closing fair value of assets</b>                        | <b>30.65</b>                                  | <b>21.71</b>                                  |



| <b>Actual return on assets</b>          | <b>Year ending<br/>31 March 2021<br/>(£M)</b> | <b>Year ending<br/>31 March 2020<br/>(£M)</b> |
|---|---|---|
| Interest income on assets               | 0.51  | 0.54  |
| Remeasurement gains /(losses) on assets | 7.05  | (0.86)  |
| <b>Actual return on assets</b>          | <b>7.56</b>                                   | <b>(0.32)</b>                                 |

### Estimated pension expense in future periods

#### Funded benefits

We provide an estimate of the charges to comprehensive expenditure on the provision of services in future periods, based on the assumptions outlined above.

| <b>Analysis of amount charged in other comprehensive expenditure on the provision of services next year</b> | <b>Year ending<br/>31 March 2022<br/>(£M)</b> |
|---|---|
| Current service cost  | 2.14  |
| Interest on net defined benefit liability   | 0.04  |
| <b>Total estimated pension expense</b>  | <b>2.18</b>                                   |
| Allowance for administration expenses included in the Current service cost (£M)                             | 0.02  |
| Estimated pensionable payroll over the period (£M)  | 4.45  |

#### Sensitivity analysis

The approximate impact of changing the key assumptions on the present value of the funded defined benefit obligation as at 31 March 2021 and the projected service cost for the year ending 31 March 2022 is set out below.

In each case only the assumption mentioned is altered; all other assumptions remain the same as summarised above.

We have not included sensitivity of unfunded benefits (where applicable) on materiality grounds.

## Funded LGPS benefits

| <b>Discount rate assumption</b><br>Adjustment to discount rate | <b>+0.1%<br/>p.a.</b> | <b>Base<br/>figure</b> | <b>-0.1%<br/>p.a.</b> |
|--|-----------------------|------------------------|-----------------------|
| Present value of total obligation (£M)                         | 32.14                 | 33.00                  | 33.89                 |
| % change in present value of total obligation                  | (2.6%)                | -                      | 2.7%                  |
| Projected service cost (£M)                                    | 2.06                  | 2.14                   | 2.22                  |
| <b>Approximate % change in projected service cost</b>          | <b>(3.8%)</b>         | <b>-</b>               | <b>3.9%</b>           |

| <b>Rate of general increase in salaries</b><br>Adjustment to salary increase rate | <b>+0.1%<br/>p.a.</b> | <b>Base<br/>figure</b> | <b>-0.1%<br/>p.a.</b> |
|---|-----------------------|------------------------|-----------------------|
| Present value of total obligation (£M)  | 33.13                 | 33.00                  | 32.87                 |
| % change in present value of total obligation                                     | 0.4%                  | -                      | (0.4%)                |
| Projected service cost (£M)   | 2.14                  | 2.14                   | 2.14                  |
| Approximate % change in projected service cost                                    | 0.0%                  | -                      | 0.0%                  |

| <b>Rate of increase to pensions in payment and deferred pensions assumption, and rate of revaluation of pension accounts assumption</b><br>Adjustment to pension increase rate | <b>+0.1%<br/>p.a.</b> | <b>Base<br/>figure</b> | <b>-0.1%<br/>p.a.</b> |
|--|-----------------------|------------------------|-----------------------|
| Present value of total obligation (£M)   | 33.76                 | 33.00                  | 32.27                 |
| % change in present value of total obligation  | 2.3%                  | -                      | (2.2%)                |
| Projected service cost (£M)  | 2.22                  | 2.14                   | 2.06                  |
| Approximate % change in projected service cost   | 3.9%                  | -                      | (3.8%)                |

| <b>Post retirement mortality assumption*</b><br>Adjustment to mortality age rating assumption | <b>-1 year</b> | <b>Base<br/>figure</b> | <b>+1 year</b> |
|---|----------------|------------------------|----------------|
| Present value of total obligation (£M)  | 34.19          | 33.00                  | 31.85          |
| % change in present value of total obligation   | 3.6%           | -                      | (3.5%)         |
| Projected service cost (£M)   | 2.23           | 2.14                   | 2.05           |
| Approximate % change in projected service cost  | 4.1%           | -                      | (4.0%)         |

\* A rating of +1 year means that members are assumed to follow the mortality pattern of the base table for an individual that is 1 year older than them.

## 16. Provisions and contingent liabilities disclosed under IAS 37

The lease agreements in relation our Cardiff and St Asaph Offices potentially requires that any alterations, additions and partitioning should be removed on cessation of the lease. No provision has been made as this obligation is uncertain and is contingent on the landlord requesting the removal.

## 17. Contingent asset

At 31 March 2021 there were £106k of registration fees outstanding. Under the Regulation and Inspection Act (Wales) 2016 it was originally assumed that we could only remove registrants for non payment of outstanding fees at renewal of registration which takes place three years after initial registration and then on a three year cycle. Based on experience to date it is only at the this renewal date we are able to substantiate that in relation to the majority of outstanding fees whether the registrant has not paid due to leaving the sector (and the outstanding fee will not be pursued) or if it is a genuine debt in relation to an ongoing registrant.

Following discussions with Welsh Government it was agreed that the Act did allow the removal of debtors prior to the renewal date. Work has begun in removing debtors but we are still not in a position to substantiate what is genuine debt or not.

Therefore the £106k outstanding is not treated as income in the Statement of comprehensive net expenditure as we are not sure of the precise economic value of this amount as on an individual basis we will not know whether the income will materialise until the renewal date of each individual amount/ amounts owed is reached.

## 18. Related party transactions

During the year Social Care Wales has had various material transactions with the Welsh Government which is regarded as a related party. The transactions and balances were as follows:-

|                                 | 2020-21  | 2019-20  |
|---------------------------------|----------|----------|
| Income                          | £20.791m | £19.805m |
| Expenditure                     | £0.144m  | £0.128m  |
| Debtor balance as at 31 March   | £0.011m  | £0.001m  |
| Creditor balance as at 31 March | -        | -        |

### Social Care Wales Board members and staff

No employees including key management personnel or board members nor their related parties were involved directly or indirectly in any transactions with Social Care Wales during the year, apart from normal expense claims, salary payments etc. Information about key management personnel is included in the Remuneration report.

However for transparency we do disclose material transactions with organisations in which senior staff or members or any of their family held positions of influence during the year.

Our previous Chair was also a Council Member of the University of Wales and was the Chair of the Audit and Risk Committee of the University of Wales Trinity St David. The expenditure transactions with the University of Wales Trinity St David was £1,040 in 2019-20. There were no debtor or creditor balances as at the 31 March 2020.

In addition, two members of our board were also members of the Regional Partnership Boards which received grant funding from Social Care Wales in the form of Regional Facilitation Grant. The transactions were as follows:-

| Board Member   | Role         | Regional Partnership Board                | Expenditure 2020-21 (£) | Expenditure 2019-20 (£) |
|----------------|--------------|---|-------------------------|-------------------------|
| Abigail Harris | Member       | Cardiff & Vale Regional Partnership Board | 73,036                  | 73,036                  |
| Carl Cooper    | Deputy Chair | Powys Regional Partnership Board          | 57,574                  | 32,574                  |

Please note that the payments in the table above were made to the nominated local authority being Cardiff City Council (Cardiff and Vale) and Powys County Council (Powys).

## 19. Third party assets

Social Care Wales does not hold any third party assets in which it acts as a custodian or a trustee.

## 20. Events after the reporting period

There are no events after the reporting period, which require adjustment to the 31 March 2021 financial statements.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



## Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Gofal Cymdeithasol Cymru

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2469A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi casgliadau archwiliad 2020-21. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod ar eich datganiadau ariannol.

Adroddiad archwilio cyfrifon

|  |    |
|--|----|
| Cyflwyniad                                     | 4  |
| Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni           | 4  |
| Barn archwilio arfaethedig                     | 5  |
| Materion arwyddocaol yn deillio o'r archwiliad | 6  |
| Atodiadau                                      |    |
| Atodiad 1 – Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol    | 7  |
| Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig    | 10 |



# Adroddiad archwilio cyfrifon

## Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch datganiadau ariannol ar gyfer 2020 – 21 yn yr adroddiad hwn.
- 2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol a TG.
- 3 Ni all archwilwyr byth roi sicrwydd llwyr bod cyfrifon yn cael eu datgan yn gywir. Yn hytrach, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Mae'r lefel hon o berthnasedd wedi'i gosod i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai fel arall achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael eu camarwain.
- 4 Rydym yn gosod y lefel hon ar £436,000 ar gyfer yr archwiliad eleni.
- 5 Mae rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darllynydd ac rydym wedi gosod lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:
  - Adroddiad Taliadau £1,000
  - Datgeliadau Partïon Cysylltiedig £1,000
- 6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni yn sylweddol.
- 7 Yn ein barn broffesiynol, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; yn parhau i fod yn annibynnol ydych chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi'i beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthynas rhyngom ni a chithau y credwn y gallai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth.

## Effaith COVID-19 ar yr archwiliad eleni

- 8 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi baratoi cyfrifon ac mae'n dyst sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a ddaw yn sgil y pandemig hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar i broffesiynoldeb y tîm wrth ein cefnogi i gwblhau ein harchwiliad mewn amgylchiadau mor anodd.
- 9 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi y prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ar wahân i adegau pan fyddwn yn gwneud argymhellion yn benodol, **darperir y manylion yn Arddangosyn 1** at ddibenion gwybodaeth yn unig i'ch helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar y broses archwilio eleni.

## Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar yr archwiliad eleni

|                              |  |
|------------------------------|--|
| <b>Amserlen</b>              | <ul style="list-style-type: none"><li>• Arhosodd y dyddiad cau ar gyfer cwblhau eich cyfrifon yn ddigifnewid.</li><li>• Cawsom y cyfrifon drafft ar 24 Mai 2021.</li><li>• Disgwyliwn i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi ar 22 Gorffennaf.</li></ul>   |
| <b>Llofnodion electronig</b> | Os bydd angen o hyd ar adeg cymeradwyo a llofnodi, byddwn yn derbyn llofnodion electronig a ffeiliau wedi'u trosglwyddo'n electronig.  |
| <b>Tystiolaeth archwilio</b> | <p>Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cawsom y rhan fwyaf o'r dystiolaeth archwilio ar ffurf electronig. Rydym wedi defnyddio technegau amrywiol i sicrhau ei dilysrwydd. Lle nad ydym wedi gallu cael mynediad at ddogfennau papur oherwydd cyfyngiadau COVID-19, rydym wedi dyfeisio methodolegau archwilio amgen i gael gafael ar ddigon o dystiolaeth archwilio.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• defnyddio negeseuon e-bost diogel wedi'u hamgryptio i rannu dogfennau.</li><li>• cafodd rhywfaint o wybodaeth ei dilysu i argraffiadau sgrin neu i'r systemau byw drwy rannu sgrin.</li><li>• mae fideo-gynadledda wedi galluogi'r tîm archwilio i ohebu'n effeithiol â'r tîm cyllid drwy gydol yr archwiliad.</li></ul> |

- 10 Byddwn yn parhau i adolygu'r hyn rydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig COVID-19 a pha un a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

## Barn archwilio arfaethedig

- 11 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni ar ôl i chi roi Llythyr Cynrychiolaeth i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir **yn Atodiad 1**.
- 12 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' pan fo gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.
- 13 Mae'r Llythyr Cynrychiolaeth yn cynnwys rhywfaint o dystiolaeth y mae'n ofynnol i ni ei chael gennych yn unol â safonau archwilio.
- 14 Nodir ein hadroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**.

## Materion arwyddocaol yn deillio o'r archwiliad

### Camddatganiadau heb eu cywiro

15 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi yn y cyfrifon, sy'n dal heb eu cywiro.

### Camddatganiadau wedi'u cywiro

16 Mae nifer o fân gamddatganiadau wedi'u cywiro gan y rheolwyr. Diwygiadau datgelu naratif oedd y rhain ac nid ydym o'r farn bod angen tynnu eich sylw atynt fel rhan o'ch cyfrifoldebau dros y broses adrodd ariannol.

## Materion arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

17 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn adrodd i chi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Ni chafwyd unrhyw faterion yn codi eleni.

# Atodiad 1

## Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol

### Pennawd llythyr Gofal Cymdeithasol Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

xx xxxx 2021

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2020-21

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o'r datganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad Taliadau sy'n destun archwiliad) o Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 er mwyn mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch, y modd y cawsant eu paratoi'n briodol a rheoleidd-dra incwm a gwariant].

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau yr ystyriwn yn ddigonol, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheoli

### Cyfrifoldebau

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i mi:
  - gadw at y cyfarwyddiadau cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifo priodol yn gyson;
  - gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
  - datgan a ddilynwyd a datgelwyd safonau cyfrifyddu cymwys ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol oddi wrthynt; a'u
  - paratoi ar sail busnes gweithredol ar y rhagdybiaeth y bydd gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i weithredu.
- sicrhau rheoleidd-dra unrhyw wariant a thrafodion eraill a gafwyd; a
- cynllunio, gweithredu a chynnal rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrif a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym at ddibenion yr archwiliad; a
  - mynediad digyfngiad at staff yr oeddech yn gweld bod angen cael tystiolaeth archwilio ohonynt.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol gael eu cam-ddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll tybiedig yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Ofal Cymdeithasol Cymru ac sy'n cynnwys:
  - rheoli;
  - cyflogeion sydd â swyddogaethau sylweddol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a drosglwyddir gan gyflogeion, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio neu lle bo amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Hunaniaeth yr holl bartïon cysylltiedig a holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.
- Ein gwybodaeth am bob achos posibl a gwirioneddol o drafodion afreolaidd.

## Sylwadau datganiad ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi'u cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u nodir yn y datganiadau ariannol.

Mae rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurir ar werth teg, yn rhesymol.

Mae perthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig wedi cael eu cyfrif a'u datgelu'n briodol.

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n digwydd yn dilyn y dyddiad adrodd y mae angen eu haddasu neu eu datgelu wedi'u haddasu neu wedi'u datgelu.

Mae'r holl ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol neu bosibl y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u datgelu i'r archwilydd a'u cyfrif a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau camddatganiadau heb eu cywiro a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac ar y cyfansymiau, i'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

## Sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio a Risg

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi'u trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros baratoi datganiadau ariannol gwirioneddol a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar xx xxxx 2021

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd er mwyn gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac wedi sefydlu ei bod wedi'i chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Llofnodwyd gan:

Prif Weithredwr

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Dyddiad:

Dyddiad:

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig

### Y Dystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

#### Barn ar ddatganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifau Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Gofal Cymdeithasol Cymru ar 31 Mawrth 2021 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2.

#### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

#### Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion

moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## **Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## **Gwybodaeth arall**

Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall ei bod yn ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn cael ei cham-ddatgan yn sylweddol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## **Adroddiad ar ofynion eraill**

### **Barn ar faterion eraill**

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni



allaf gadarnhau bod yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Taliadau, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac, yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Chanllawiau Trysorlys EM.

## **Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn cysylltiad â'r materion canlynol yr adroddaf i chi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan archwiliedig o'r Adroddiad taliadau yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## **Cyfrifoldebau**

### **Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac mae paragraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni ystyrir ei fod yn amhriodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warrant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfansymiau, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i beryglon twyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod referniw, postio cylchgronau anarferol a rhagfarn wrth gyfrifo amcangyfrifon cyfrifyddu.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Gofal Cymdeithasol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y chyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r chyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a

wneir wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob tîm archwilio ac yn parhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Gofal Cymdeithasol Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
22 Gorffennaf 2021

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a chywirdeb gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilydd yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan ar y dechrau.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Gofal Cymdeithasol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.





Audit Wales  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



|  |  |                                       |   |                                     |                            |
|--|--|---------------------------------------|---|-------------------------------------|----------------------------|
| <b>CYFARFOD / MEETING</b>  | <b>Cyfarfod Bwrdd</b>  |                                       |   |                                     |                            |
|  | <b>PREIFAT / PRIVATE</b>   |                                       | <b>CYHOEDDUS / PUBLIC</b>                   |                                     |                            |
|  | <input type="checkbox"/>   |                                       | <input checked="" type="checkbox"/>         |                                     |                            |
| <b>DYDDIAD / DATE</b>  | <b>15.07.21</b>  |                                       |   |                                     |                            |
| <b>EITEM AGENDA AGENDA ITEM</b>  | <b>8</b>   |                                       |   |                                     |                            |
| <b>TEITL / TITLE SCW/21/20</b>   | <b>Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r Bwrdd</b>   |                                       |   |                                     |                            |
| <b>AWDUR / AUTHOR</b>  | Rhian Watcyn Jones<br>Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg  |                                       |   |                                     |                            |
| <b>CYFRANIADAU GAN/ CONTRIBUTIONS FROM:</b>  | Aelodau'r Pwyllgor Archwilio   |                                       |   |                                     |                            |
| <b>PAPURAU CEFNOGOL / SUPPORTING PAPERS</b>  | Atodiad 1: Rhaglen waith y Pwyllgor 2020/21<br>Atodiad 2: Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020/21   |                                       |   |                                     |                            |
| <b>GWEITHGAREDD CYNLLUN BUSNES / BUSINESS PLAN ACTIVITY</b>                          | Thema flaenoriaeth 4: ar gyfer gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru a sefydliad effeithiol  |                                       |   |                                     |                            |
